



## **Dogfen Ymgynghori Ffurfiol**

**Cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton  
(Ysgol Gymunedol, Cyfrwng Cymraeg) ar 31  
Awst 2016 gyda disgyblion yn symud i ysgolion  
cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal leol yn unol â  
dewis rhieni**

**Tachwedd 2015**

## **Cynnwys**

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Datblygu Cynigion Trefniadaeth Ysgolion**
- 3. Cefndir y Cynnig**
- 4. Y Cynnig**
- 5. Manteision, anfanteision a risgiau'r cynnig**
- 6. Beth fydd effaith y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg?**
- 7. Gwerthuso Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safon Addysg**
- 8. Darpariaeth amgen**
- 9. Digonolrwydd Adeiladau Ysgolion ac Effaith y Cynnig ar Ansawdd Adeiladau**
- 10. Beth fydd effaith y cynnig ar gyllido ysgolion?**
- 11. Beth fydd effaith y cynnig ar dir ac adeiladau'r Ysgol?**
- 12. Pa faterion sydd wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r cynnig?**
- 13. Effeithiau ar y Gymraeg, y Gymuned a Chydraddoldeb**
- 14. Effaith y Cynnig ar Athrawon, Staff Cymorth a'r Corff Llywodraethu**
- 15. Effaith y Cynigion ar Ddisgyblion**
- 16. Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Grwpiau o Ddysgwyr Agored i Niwed**
- 17. Trefniadau Cludiant**
- 18. Trefniadau Derbyn**
- 19. Effaith y Cynnig ar Ddarpariaeth Uwchradd**
- 20. Sut fydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal?**

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Mae Cyngor Sir y Fflint am glywed safbwyntiau partion a buddiant ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton o 31 Awst 2016 gyda disgyblion presennol yn symud i ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal leol, yn unol â dewis rhieni.
- 1.2 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi gwybodaeth y dylai ymgynghorwyr ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y'u nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013 Llywodraeth Cymru.
- 1.3 Mae'r cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau ddydd Mercher 11 Tachwedd 2015 ac yn dod i ben ddydd Mercher 23 Rhagfyr 2015.

## **2. Datblygu Cynigion Trefniadaeth Ysgolion**

- 2.1 Wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion, dylid ystyried y polisiau a'r egwyddorion cenedlaethol trosfwaol, gan gynnwys:
  - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
  - Iaith Fyw – Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 – 2017;
  - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
  - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, cynllun datblygu cynaliadwy newydd ar gyfer Cymru, Mai 2009 neu unrhyw strategaeth olynol;
  - Strategaeth Tlodi Plant Cymru (cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011, rhif dogfen wybodaeth 95/2011), neu unrhyw strategaeth olynol;
  - Ffydd mewn Addysg.
- 2.2 Yn ogystal â hyn, dylid ystyried cynlluniau lleol wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys:
  - Cynlluniau lleol ar gyfer datblygu economaidd a thai;
  - Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg;
  - Cynlluniau Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc;
  - Strategaeth Moderneiddio Ysgolion,
- 2.3 Dylid ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion hefyd, fel:
  - Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (2008);
  - Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru (Hydref 2011).
- 2.4 Mae'r ffactorau y dylid eu hystyried gan y cyrff perthnasol wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu bennu cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion fel a ganlyn:

- Ansawdd a safonau mewn addysg – deilliannau, darpariaeth ac arwain a rheoli;
- Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion;
- Adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill.

2.5 Mae ffactorau eraill yn cael eu hystyried hefyd, fel effaith y cynnig ar blant o gefndiroedd economaidd difreintiedig, ac unrhyw faterion cydraddoldeb (gan gynnwys y rhai a nodir drwy asesiadau effaith ar gydraddoldeb).

### 3. Cefndir y Cynnig

3.1 Ein nod yw y bydd plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol, dyhead cryf i ddysgu gydol oes ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y byd gwaith. Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddatblygu drwy wahanol gyfnodau eu haddysg. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i raglen ddysgu a fydd wedi'i phersonoli er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu galluoedd. Bydd plant a phobl ifanc yn dysgu mewn ystod gyffrous ac arloesol o arddulliau a lleoliadau. Bydd y rhain yn cynnwys profiadau dysgu galwedigaethol, mentrus, gwirfoddol, ysbrydol, diwylliannol a chwaraeon. Bydd amcanion trefniadaeth ysgolion yn darparu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth Cymraeg a Saesneg, a darpariaeth ffydd hefyd.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymrwymo i barhau i godi safonau, gyda thasgau allweddol yn cynnwys sicrhau:

- disgwyliadau uchel a ffocws clir ar wella addysgu, dysgu a chyrhaeddiad ym mhob cymuned ysgol;
- bod yr holl adnoddau sydd ar gael i ysgolion yn canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn cyd-destun o bwysau ar y gyllideb flynyddol;
- dull cyson o gasglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth asesu, gan gynnwys systemau olrhain, i dargedu cefnogaeth ac ymyriadau;
- ymrwymiad parhaus i ddatblygu staff addysgu a chymorth mewn ysgolion;
- cefnogi, ymestyn a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned gyfan, gan gynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg i gydymffurfio â Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru o ddatblygu dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog (h.y. rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg) a lle mae galw.

3.2 Cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir y Fflint y Strategaeth Trefniadaeth Ysgolion ddiwygiedig ym mis Ionawr 2015, a oedd wedi'i diweddarau o strategaeth flaenorol y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn 2010. Mae'r ddogfen ar gael yn: <http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx>.

- 3.3 Mae angen y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion oherwydd bod angen i ni:
- Sicrhau bod y ddarpariaeth addysg o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy;
  - Gwella ansawdd adeiladau a chyfleusterau ysgolion;
  - Darparu'r nifer priodol o leoedd ysgol, o'r math iawn yn y lleoliadau iawn;
  - Mynd i'r afael ag adeiladau ysgol anghynaliadwy a chefnogi seilwaith;
  - Cydnabod bod gwneud dim yn golygu cymarebau disgyblion athrawon uwch wrth i'r cyllid leihau;
  - Sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyllid allanol drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.
- 3.4 Mae'r 'sbardunwyr' allweddol neu feini prawf ar gyfer moderneiddio sy'n ategu'r uchod yn cynnwys:
- Gwelliannau addysgol
  - Arweinyddiaeth gadarn mewn ysgolion
  - Adeiladau addas
  - Lleoedd heb eu llenwi
  - Llai o adnoddau
- 3.5 Mae gan y portffolio ysgolion cynradd 1967 o leoedd heb eu llenwi (yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2015<sup>1</sup>), a'r targed cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yw gostwng y lefel i dan 10%.
- 3.6 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen sicrhau bod pob ysgol a safle ysgol yn gallu darparu'r cyfleoedd ehangaf posibl i blant. O ganlyniad i hynny, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr heriau addysgol sy'n wynebu ysgolion bach, fel y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad 'Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru' Estyn yn 2003, sy'n cynnwys:
- Addysgu dosbarthiadau oedrannau cymysg sy'n cynnwys mwy na 2 neu 3 grŵp oedran;
  - Maint cyfyngedig grwpiau cyfoedion;
  - Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol;
  - Anawsterau wrth recriwtio a chadw staff;
  - Gormod o feichiau ar staff;
  - Angen mwy o arbenigedd i gefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.
- 3.7 Amcanion y strategaeth moderneiddio ysgolion a'r adolygiad o ysgolion sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu'r Cyngor yw mynd i'r afael â'r heriau

---

<sup>1</sup> CYBLD – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

hyn a sicrhau bod y safonau cyfredol a chyrhaeddiad yn y sector cynradd yn cael eu cynnal ar gyfer y dyfodol.

- 3.8 Bydd darpariaeth ysgolion cynradd yn y dyfodol yn ceisio dilyn un o'r modelau a argymhellir gan y Cyngor a ddisgrifir isod. Dyma'r modelau:
- a) Mynediad 1 dosbarth neu fwy - ysgolion cynradd yn darparu o leiaf 210 o leoedd llawn amser neu fwy (oddeutu 30 o ddisgyblion i bob grŵp blwyddyn) a heb fwy na 25% o leoedd heb eu llenwi. Mae modelau eraill o fynediad un dosbarth o leiaf, er enghraifft, 1.5, 2, 2.5 neu 3 dosbarth mynediad hefyd yn effeithiol ac effeithlon.
  - b) Bydd ysgolion gyda llai nag 1 dosbarth mynediad, ond gyda mwy na 0.5 dosbarth mynediad yn darparu o leiaf 105 o leoedd llawn amser (oddeutu 15 disgybl i bob grŵp blwyddyn) os oes angen, yn cael eu hystyried o bosibl ar gyfer sefydlu ysgol ffederal neu ysgol ardal. Byddai ysgolion ardal yn cael eu sefydlu yn unol â hoff fodel gweithredu'r Cyngor yn (a) uchod.
- 3.9 Os nad yw'r ysgol yn gallu cynnal niferoedd digonol o ddisgyblion neu os yw adolygiad ardal yn pennu y dylid cau ysgol, mae angen cyhoeddi cynigion statudol er mwyn cau unrhyw ysgol gynradd, gan gynnwys y rhai o fewn ffederasiwn.
- 3.10 Mae'r Cyngor yn cyflwyno'r cynigion hyn gan ei fod yn credu y byddai'r holl ddisgyblion yn Sir y Fflint yn elwa yn yr hirdymor ar y newidiadau a gynigir.

#### **4. Y Cynnig**

- 4.1 Y cynnig yw cau Ysgol Gymraeg Mornant, Heol Picton, Penyffordd, Ger Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 9JQ (Ysgol gymunedol, Cyfrwng Cymraeg) ar 31 Awst 2016 gyda'r disgyblion yn symud i'r rhwydwaith lleol o ysgolion yn ôl dewis rhieni.
- 4.2 Cyflwynir y cynnig ar y sail bod yr ysgol yn cyflawni'r trothwyon canlynol fel y nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, sef:-
- Lleoedd heb eu llenwi ar draws y portffolio ysgolion cynradd - ym mis Ionawr 2015 (CYBLD), roedd gan Ysgol Gymraeg Mornant, Picton 48 o ddisgyblion llawn amser gyda lleoedd heb eu llenwi yn 57.76%. O fis Medi 2015 mae gan yr ysgol 44 o ddisgyblion llawn amser, gyda lleoedd heb eu llenwi yn 60.36% (ar sail capasiti presennol yr ysgol, sef 111 o ddisgyblion llawn amser);
  - Meini prawf llai o adnoddau (niferoedd isel o fewn y gymuned yn awgrymu pryder am gynaliadwyedd o fewn portffolio'r ysgol);
  - Ysgol Fach – Mae poblogaeth ysgol Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn is na'r dynodiad cenedlaethol o ysgol fach, ac nid yw'r niferoedd ysgol yn

bodloni gofynion sylfaenol modelau ysgolion cynradd fel y nodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor.

- Ar hyn o bryd (Gorffennaf 2015), mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yng nghategori 4 (allan o 1-4) Llywodraeth Cymru, gyda 4 yr isaf o ran safonau. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei chategori bob blwyddyn, a phan ysgrifennwyd y ddogfen hon, nid oedd categori Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, wedi'i adolygu gan Lywodraeth Cymru.

4.3 Mae hyn yn arwain at gostau uwch fesul disgybl; a chostau adeiladu, arweinyddiaeth a gweinyddu diangen. Bydd y cynnig yn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio ar wario ar yr ystafell ddosbarth mewn cyfnod o gyllidebau blynyddol is ar gyfer ysgolion yn y dyfodol agos.

4.4 Yn yr ardal gyfagos, mae 2 ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd sydd wedi'u nodi fel ysgolion amgen pe bai Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cau. Rhestrir yr ysgolion isod (ynghyd â'u categori ysgolion cenedlaethol ar gyfer safonau):

- Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon (Categori 3)
- Ysgol y Llys, Prestatyn, Sir Ddinbych (Categori 3)


*Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Categori 3 wedi'i chyflwyno bellach yng Nghymru. Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Categori 3 Ysgolion yn darparu ffordd glir a syml o ddeall pa mor dda y mae ysgol yn perfformio ar gyfer ei holl ddisgyblion, pa mor effeithiol y mae'n cael ei harwain a'i rheoli, ansawdd yr addysgu a'r dysgu a lefel y cymorth a'r her sydd eu hangen ar yr ysgol i gyflawni hyd yn oed yn well. Bydd ysgolion yn cael eu gosod mewn un o bedwar grŵp safon (1 i 4), gydag ysgolion yng ngrŵp safon 1 yn arddangos perfformiad cyffredinol da iawn a'r rhai yng ngrŵp safonau 4 yn arddangos yr angen mwyaf i wella'u perfformiad.*

- 4.5 Mae niferoedd y disgyblion yn y ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg amgen a nodwyd yn y ddogfen hon wedi gweld cynnydd yn niferoedd eu disgyblion ers 2011.

Niferoedd y **disgyblion llawn amser** ar y Gofrestr (*Ffynhonnell: Data CYBLD Blynyddol mis Ionawr*) Ionawr 2011-2015 – O Gymharu ag Ysgolion Cyfagos

Enw'r Ysgol	Ion 11	Ion 12	Ion 13	Ion 14	Ion 15
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (CC)	63	58	57	52	48
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon (CC)	160	172	180	195	202
Ysgol y Llys, Prestatyn (CC)	262	254	245	260	272
<b>Cyfanswm</b>	<b>485</b>	<b>484</b>	<b>482</b>	<b>507</b>	<b>522</b>
<b>Capasiti (Llawn Amser)</b>	787	787	787	787	787
<b>Niferoedd Heb eu Llenwi</b>	<b>302</b>	<b>303</b>	<b>305</b>	<b>280</b>	<b>265</b>
<b>Heb eu Llenwi %</b>	<b>38.37%</b>	<b>38.5%</b>	<b>38.75%</b>	<b>35.57%</b>	<b>33.67%</b>

(CC – Cyfrwng Cymraeg)




Mae gan Gyngor Sir y Fflint gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod nifer digonol o leoedd ysgol, o'r math priodol, yn y lleoliadau priodol. Mae'r galw lleol am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Gwesbyr-Picton yn annigonol i gefnogi ysgol gynradd o faint addas, ac mae'r ysgol wedi gostwng i 44 o ddisgyblion llawn amser ym mis Medi 2015.



Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall yr ymgynghori statudol ynghylch newid trefniadol achosi ansicrwydd o fewn cymuned yr ysgol leol, a all gyfrannu at ostyngiad mewn niferoedd disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ardal Gwesbyr-Picton yn dewis mynychu'r ysgol agosaf sydd ar gael, sef Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Fodd bynnag, mae nifer fach o ddisgyblion sy'n preswyllo yn ardal Gwesbyr-Picton yn dewis ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill. Nid oes digon o ddisgyblion a galw yn yr ardal i sicrhau bod Ysgol Gymraeg Mornant, Picton o faint cynaliadwy wrth i'r cyfnod hwn o gynt wasgu ymhellach.

Mae'r map ar y dudalen nesaf yn dangos lleoliad cartrefi disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ar hyn o bryd (mis Medi 2015).



4.6 **Canran y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Mornant, Picton**  
(Ffynhonnell: ciplun o ddisgyblion o'r system ONE, Medi 2015)

Ysgol	% y disgyblion lle mai Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yw eu Hysgol Cyfrwng Cymraeg agosaf	% y disgyblion lle nad Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yw eu Hysgol Cyfrwng Cymraeg agosaf
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	90.9%	9.1%

4.7 Mae'r tabl isod yn dangos y nifer llawn amser ar y gofrestr ar hyn o bryd (cyfrifiad Ionawr 2015), capasiti presennol ysgolion, nifer y derbyniadau a nifer y lleoedd heb eu llenwi sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig.

Enw'r Ysgol	Cyfanswm y Disgyblion (Llawn Amser) Ion 2015	Capasiti ar hyn o bryd (Llawn Amser)	Nifer y Derbyniadau	Lleoedd heb eu llenwi	% o Lleoedd heb eu llenwi
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	48	111	15	63	56.76%
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	202	256	36	54	21.09%
Ysgol y Lllys, Prestatyn	272	420	60	148	35.23%
<b>CYFANSWM</b>	<b>522</b>	<b>787</b>		<b>265</b>	

111 yw capasiti swyddogol yr Ysgol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r asesiad capasiti presennol yn cynnwys ystafell ddosbarth symudol, sydd wedi'i dileu erbyn hyn. Byddai ailasesiad o'r capasiti yn gostwng y capasiti llawn amser i 81 o leoedd llawn amser a fyddai'n gostwng y lleoedd heb eu llenwi o 56.76% i 40.74% ar sail niferoedd disgyblion mis Ionawr 2014 neu 45.67% o leoedd heb eu llenwi ar sail niferoedd disgyblion ym mis Medi 2015.

Fodd bynnag, bydd gostyngiad yn y capasiti yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ffurfioli drwy gyhoeddi hysbysiad (cynnig Statudol) ar sail y canllawiau ar Fesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru.

Pe bai capasiti'r ysgol yn cael ei ostwng, byddai'r ysgol yn dal i sbarduno adolygiad o dan y meini prawf lleoedd heb eu llenwi. Hefyd, gan fod yr ysgol

eisoes yn y broses ymgynghori ffurfiol ar gau ysgol yn statudol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n cael blaenoriaeth.

Enw'r Ysgol	Cyfanswm y Disgyblion (Llawn Amser) Ion 2015	Capasiti (Llawn Amser)	Nifer y Derbyniadau	Lleoedd heb eu llenwi	% o Lleoedd heb eu llenwi
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (heb yr ystafell ddosbarth symudol)	48	81	11	33	56.76%
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	202	256	36	54	21.09%
Ysgol y Llys, Prestatyn	272	420	60	148	35.23%
<b>CYFANSWM</b>	<b>522</b>	<b>757</b>		<b>235</b>	

Gan nad yw'r newid mewn capasiti wedi'i ddiwygio'n ffurfiol, cyfeirir at gapasiti Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn 111 (disgyblion llawn amser) drwy'r ddogfen hon.

- 4.8 Mae'r rhagamcanion disgyblion ar gyfer yr holl ysgolion cynradd yn cael eu gwneud ar ôl dychwelyd ffurflen swyddogol yr ysgolion (h.y. cyfrifiad ysgolion mis Ionawr). Mae rhagamcanion disgyblion wedi'u datblygu a'u cysoni gydag Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth y Gogledd.

**Rhagamcanion disgyblion ar gyfer ysgolion Cyfrwng Cymraeg a nodwyd ar sail Data Cyfrifiad CYBLD Ionawr 2015 (niferoedd disgyblion llawn amser ar y gofrestr)**

Ysgolion	Medi 2015	Medi 2016	Medi 2017	Medi 2018	Medi 2019	+/-
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (CC)	46	42	35	35	33	-13
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon (CC)	209	216	214	223	227	+18
Ysgol Y Llys, Prestatyn (CC)	309	327	346	364	380	+71
<b>Cyfanswm</b>	<b>564</b>	<b>585</b>	<b>595</b>	<b>622</b>	<b>640</b>	
<b>Capasiti (Llawn Amser)</b>	<b>787</b>	<b>787</b>	<b>787</b>	<b>787</b>	<b>787</b>	
<b>Niferoedd Heb eu Llenwi</b>	<b>223</b>	<b>202</b>	<b>192</b>	<b>165</b>	<b>147</b>	
<b>% Heb eu Llenwi</b>	<b>28.33 %</b>	<b>25.66%</b>	<b>24.39%</b>	<b>20.96%</b>	<b>18.67%</b>	

(Ffynhonnell: Mai 2015 gan ddefnyddio CYBLD Ionawr 2015 a rhagamcanion Cyngor Sir Dinbych)

- 4.9 Mae union nifer y disgyblion llawn amser ar y gofrestr ym mis Medi 2015 ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn 44 (Ffynhonnell: System ONE). Mae'r wybodaeth hon wedi'i gwirio gydag Ysgol Gymraeg Mornant, Picton a Thîm Gwybodaeth Reoli Ysgolion Sir y Fflint.

Ar sail ffigurau disgyblion ym mis Medi, mae ailasesiad o'r rhagamcanion disgyblion yn yr ysgol fel a ganlyn:

Ysgolion	Medi 2015	Medi 2016	Medi 2017	Medi 2018	Medi 2019	Medi 2020
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	44	41	34	35	33	32
Capasiti	111	111	111	111	111	111
Lleoedd heb eu Llenwi	67	70	77	76	78	79
% Lleoedd heb eu Llenwi	60.36%	63.06%	69.36%	68.46%	70.07%	71.17%

- 4.10 Mae'r tabl isod yn dangos cyfradd genedigaethau hanesyddol ar gyfer y cyfnod 2008 - 2013 ar gyfer ardal Gwesbyr-Picton. Cafwyd dirywiad mewn cyfraddau genedigaethau yn yr ardal hon ers 2010.

Ward	Genedigaethau Hanesyddol					
	2008	2009	2010	2011	2012	2013
Ffynnongroyw	16	15	23	14	20	18
Gronant	19	16	13	11	11	9
Trelawnyd a Gwaunysgor	17	14	14	7	18	11
<b>CYFANSWM</b>	<b>52</b>	<b>45</b>	<b>50</b>	<b>32</b>	<b>49</b>	<b>38</b>

(Ffynhonnell: darparwyd gan Dîm Gwybodaeth Reoli Ysgolion Sir y Fflint)

- 4.11 Lle mae lleoedd heb eu llenwi'n dod yn anghymesur, gall effeithio'n negyddol ar yr adnoddau addysg. Yn 2012, cyhoeddodd Estyn<sup>2</sup> 'Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion?' Mae'r ddogfen hon ar gael yn: <http://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/sut-mae-lleoedd-dros-ben-yn-effeithio-ar-yr-adnoddau-sydd-ar-gael-i-wario-ar-wella? ga=1.227239261.1905148851.1444915482>

Dywedodd Estyn 'Pan fydd lefel uwch na'r angen o leoedd ysgol, mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon a gellid eu defnyddio'n well i wella ansawdd yr addysg ar gyfer pob dysgwr'.

- 4.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i bob Awdurdod yng Nghymru leihau'r lleoedd heb eu llenwi drwy'r sir i 10% yn y sectorau cynradd ac uwchradd, ond mae angen cael lefel benodol o leoedd heb eu llenwi er mwyn i ysgolion allu ymateb yn briodol i amrywiadau mewn niferoedd disgyblion i fodloni galw rhieni'n ddigonol tra'n cynnal darpariaeth gytbwys.
- 4.13 Wrth leihau nifer y lleoedd heb eu llenwi, mae'n caniatáu ailgyfeirio adnoddau ariannol, yn benodol ar gyfer addysgu a dysgu yn ein hysgolion. Nid yw lleihau lleoedd heb eu llenwi'n ymarfer mewn rheoli adnoddau'n unig, ond yn rhan o strategaeth ehangach i wella deilliannau a safonau ar gyfer pob disgybl yn y tymor hirach.
- 4.14 Wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion, dylid ystyried cynlluniau lleol, gan gynnwys tai. Cyfrifir y darpar ddisgyblion a allai ddeillio o'r datblygiadau tai newydd drwy ddefnyddio fformiwla cynnyrch tai. Mae'r fformiwla cynnyrch tai wedi deillio o ymchwilio i waith nifer o awdurdodau.

Mae'r fformiwla cynnyrch tai presennol ar gyfer ysgolion cynradd fel a ganlyn:-

$$\text{Nifer yr unedau tai} \times 0.24 \text{ (fformiwla ysgolion cynradd)} = \text{cynnyrch plant/disgyblion}$$

Y ffigurau cynnyrch tai yw'r uchafsymiau ac nid ydynt yn ystyried dewis rhieni a/neu symudiadau disgyblion, h.y. disgyblion yn symud i'r cartrefi newydd ond eisoes yn y system addysg leol.

Nid oes ceisiadau cynllunio ar hyn o bryd am ddatblygiadau tai wedi'u cymeradwyo ar gyfer ardal Gronant.

Mae'r ceisiadau cynllunio presennol ar gyfer datblygiadau tai yn ardal Gwesbyr-Picton wedi'u rhestru isod.

---

<sup>2</sup> Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru. Mae Estyn yn annibynnol ar, ond yn cael ei gyllido gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Datblygiadau Tai Posibl - Ffynnongroyw

<b>Cyfeirnod Cynllunio</b>	<b>Nifer yr Unedau</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Cynnyrch Plant/ Disgyblion Posibl (Cynradd yn unig)</b>
049970	11	Crown Inn Y Ffordd Fawr	3

Datblygiadau Tai Posibl – Dyserth (Sir Ddinbych)

<b>Cyfeirnod cynllunio</b>	<b>Nifer yr unedau</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Nifer y plant / disgyblion a allai ddeillio o hyn (cynradd yn unig)</b>
3643	20 y flwyddyn	Tir gyferbyn ag Ystâd Glan Ffyddion	5 bob blwyddyn

Datblygiadau Tai Posibl – Prestatyn (Sir Ddinbych)

<b>Cyfeirnod cynllunio</b>	<b>Nifer yr unedau</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Nifer y plant / disgyblion a allai ddeillio o hyn (cynradd yn unig)</b>
3619	65	Fferm Midnant	16

Datblygiadau Tai Posibl – Meliden (Sir Ddinbych)

<b>Cyfeirnod cynllunio</b>	<b>Nifer yr unedau</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Nifer y plant / disgyblion a allai ddeillio o hyn (cynradd yn unig)</b>
3621	15 (dechrau yn 2018)	Ffordd Hendre	4

- 4.15 Ar sail demograffeg, niferoedd disgyblion a gwybodaeth am y sefyllfa dai ar gyfer ardal Gwesbyr-Picton, pe bai Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cau gellid darparu ar gyfer y disgyblion mewn darpariaeth Ysgolion Cyfrwng Cymraeg cyfredol, yn unol â dewis rhieni.
- 4.16 Mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio cynnal a gwella'r ddarpariaeth o ansawdd uchel a geir yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Ond pe bai'r sefyllfa bresennol yn parhau mae perygl y gellid effeithio'n niweidiol ar ansawdd a safon addysg yn ardal Gwesbyr-Picton gan y byddai'n dal yn rhaid gwario'r adnoddau prinnach ar gynnal adeiladau, gweinyddu ac arweinyddiaeth o hyd, ar draul addysgu a dysgu.
- 4.17 Mae'r Cyngor yn wynebu cyni nas gwelwyd ei debyg yn y blynyddoedd nesaf. Blaenoriaeth y Cyngor o hyd yw cynnal ansawdd uchel y dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc ledled y Sir. Mae cyni eisoes yn cael effaith uniongyrchol ar gyllidebau ysgolion, gan arwain at golli swyddi addysgu a cholli nifer o oriau Cynorthwywyr Addysgu mewn ysgolion eleni, er bod ysgolion yn cael eu diogelu cyn gwasanaethau eraill. Gyda mwy o gynt o'n blaenau yn y blynyddoedd nesaf, bydd gwneud dim yn arwain at gynnydd mewn cymarebau disgyblion athrawon, ac anallu i fynd i'r afael â'r amgylchedd dysgu.
- 4.18 Yng nghyd-destun yr heriau sy'n wynebu darpariaeth addysgol, lefel y cyni a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol o ansawdd uchel, mae'r Cyngor yn cyflwyno'n gynt y cynnig hwn i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ar 31 Awst 2016 gyda'r disgyblion presennol i symud i ysgolion amgen yn unol â dewis rhieni.

## 5. Manteision, anfanteision a risgiau'r cynnig

- 5.1 Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, disgwylir gweld y manteision canlynol.

1.	Byddai'r cynnig o leiaf yn cynnal y safonau a'r ansawdd addysg i'r dyfodol, y mae'r Cyngor yn ceisio eu cryfhau. Byddai'r cynnig, ym marn y Cyngor, yn gwella'r safonau addysg cyfrwng Cymraeg presennol yn yr ardal yn y tymor hirach er budd holl ddisgyblion yr ardal. (Trafodir hyn yn fanwl yn adran 7 y ddogfen hon).
2.	Byddai'r cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn arwain at ostyngiad yn y lleoedd disgyblion heb eu llenwi yn y rhwydwaith ysgolion cynradd yn unol â Pholisi Cenedlaethol.
3.	Byddai'r cynnig yn arwain at ostyngiad yn y costau fesul disgybl ledled y rhwydwaith ysgolion cynradd.
4.	Byddai'r cynnig yn cyfrannu at well effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr ystâd ysgolion drwy ailgyfeirio adnoddau at addysgu a dysgu.
5.	Mae'r cynnig yn diogelu pob dysgwr yn Sir y Fflint rhag llai o adnoddau.



5.2 Pan fydd cynnigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu dwyn ymlaen, bydd rhai anfanteision. Mae anfanteision y cynnig fel a ganlyn:

1.	Byddai'r cynnig yn arwain at gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ac felly ni fyddai darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ym mhentrefan Gwesbyr-Picton.
2.	Efallai y bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o ddisgyblion deithio ymhellach i'r ysgol cyfrwng Cymraeg briodol agosaf ac y bydd cynnydd yn yr amser teithio.
3.	Byddai'r cynnig yn effeithio ar staff. Gallent gael eu hadleoli neu eu diswyddo o ganlyniad i'r cynnig.

5.3 Mae llawer o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn deillio o anfanteision y cynnig a amlinellir uchod. Amlinellir y risgiau a'r mesurau sy'n ofynnol i leihau neu negyddu effaith y risgiau hyn isod:

Anfanteision/Risg	Rheoli Risg
Efallai y bydd yn rhaid i ddisgyblion deithio ymhellach i'r ysgol	<p>Ym mwyafrif yr achosion, bydd yn rhaid i ddisgyblion deithio ymhellach i'r ysgol. Yn unol â pholisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol y Cyngor, darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Mae Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn dros ddwy filltir o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ac felly bydd rhieni'n gymwys i gael cludiant i Ysgol Gwenffrwd neu Ysgol y Llys (pe bai'n ddaearyddol agosach). Byddai cludiant ar gael hefyd i ddarpariaeth Cyfrwng Saesneg neu ffydd, yn unol â'r polisi Cludiant. Ym mhob achos, mae amseroedd teithio o fewn Mesur Cludiant Llywodraeth Cymru.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae nifer fach o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn byw yn Sir Ddinbych. Pennir cludiant gan y Cyngor lle mae'r disgyblion yn byw. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymwybodol o'r ymgynghoriad a byddwn yn anfon copi o'r ymgynghoriad i Gyngor Sir Ddinbych.</p>
Efallai y bydd staff yn cael eu hadleoli neu eu diswyddo	<p>Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd y Cyngor yn gweithio gydag aelodau staff presennol yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, pe baent am chwilio am gyfleoedd adleoli neu ymddeol.</p> <p>Bydd angen i gorff llywodraethu'r ysgol roi ei bolisi newid sefydliadol a diswyddo ei hun ar waith. Darperir cefnogaeth ar gyfer yr holl staff yn ystod y cyfnod hwn gan dîm arweinyddiaeth yr ysgol a'r Cyngor. Efallai y</p>

	bydd staff sy'n cael eu dadleoli gan y cynnig yn cael y cyfle i gael eu cyflogi yn y rhwydwaith cynradd lleol.
Effaith negyddol bosibl ar gymuned Gwesbyr-Picton	Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cynnig i gau ysgol yn cael rhywfaint o effaith ar y gymuned. Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned a gwblhawyd ar gyfer y cynnig hwn wedi dangos bod y gymuned yn defnyddio'r ysgol ychydig, ond nid yn helaeth. Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, gallai fod cyfle i'r gymuned barhau i ddefnyddio'r adeiladau. Bydd ymarfer ar wahân yn cael ei gynnal gan y Cyngor ar ôl penderfynu ar ddyfodol yr ysgol. Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy ddilyn y ddolen isod:  <a href="http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx">http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx</a>
Effaith ar yr Iaith	Mae Asesiad manwl o Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi'i gynnal ac mae ar gael ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy ddilyn y ddolen isod:  <a href="http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx">http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx</a>

- 5.4 Bydd yr holl risgiau'n cael eu monitro gan Fwrdd Rhaglen Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint. Drwy fonitro a sicrhau bod dull cadarn o fynd i'r afael â rheoli'r risgiau a'r anafteision, gellid sicrhau'r effaith leiaf bosibl ar ddisgyblion/ rhieni/ gofalwyr/ athrawon a staff cymorth. Mae gwerthusiad o'r effaith ar ddisgyblion, athrawon a staff cymorth i'w weld yn adran 14 ac 15 y ddogfen hon.
- 5.5 O ystyried y manteision, risgiau ac anafteision, mae'r Cyngor yn credu bod manteision hirdymor y cynnig, fel llai o leoedd heb eu llenwi, gwell deilliannau addysgol, manteision ar gyfer disgyblion ledled Sir y Fflint a gostyngiad yn y gost fesul disgybl, yn drech nag unrhyw anafteision.
- 5.6 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ystyried yn ofalus nifer o opsiynau wrth fformiwleiddio cynigion moderneiddio ysgolion ar gyfer ardal Gwesbyr-Picton. Wrth ystyried yr opsiynau hyn, rydym wedi cyfeirio at brif amcanion y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a'r sbardunwyr allweddol ar gyfer adolygiad ardal Gwesbyr-Picton fel y nodir yn adran 2 a 3 y ddogfen hon.

- 5.7 Mae nifer o opsiynau wedi'u hystyried, gan gynnwys cynnal y sefyllfa bresennol, ffedereiddio neu gyfuno Ysgol Gymraeg Mornant, Picton o fewn ysgol Cyfrwng Cymraeg arall.
- 5.8 Mae manylion yr opsiynau y mae'r Cyngor wedi ymchwilio iddynt yn adran 12 y ddogfen hon.
- 5.9 Mae'r cynnig hwn wedi'i ddatblygu yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r Cyngor yn cefnogi dysgwyr gyda chludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os ydynt yn bodloni'r meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn ei Bolisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol (mae rhagor o fanylion yn adran 17). Ar gyfer modelu'r costau cludiant a amcangyfrifir o ganlyniad i'r cynnig, mae'r Cyngor wedi rhagdybio y bydd cohort lawn a rhagamcanol Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (oedran ysgol statudol yn unig) yn cael cludiant am ddim i Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon. Amcangyfrifir y byddai cost flynyddol y ddarpariaeth hon yn £26,600.
- 5.10 O ganlyniad i leoliad Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, nid oes llawer o lwybrau ar gael yn yr ardal sy'n galluogi i ddisgyblion gerdded neu seiclo i'r ysgol, felly mae'r rhan fwyaf o blant o oedran ysgol statudol yn cael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol yn unol â Pholisi'r Cyngor. Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion o oedran ysgol statudol yn gymwys am gludiant am ddim yn unol â Pholisi'r Cyngor. Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o ddisgyblion byddai hyn yn arwain at fwy o deithio i'r ysgol Cyfrwng Cymraeg agosaf, ond byddai'r amseroedd teithio o fewn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.
- 5.11 Mae nifer fach o ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn byw yn Sir Ddinbych. Mae cymhwysedd cludiant yn cael ei asesu gan y Cyngor lle'r ydych chi'n byw, felly byddai angen i ddisgyblion sy'n byw yn Sir Ddinbych wneud cais i Gyngor Sir Ddinbych i bennu eu cymhwysedd. Bydd copi o'r ddogfen ymgynghori'n cael ei anfon i Gyngor Sir Ddinbych. Mae polisi cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol Sir Ddinbych ar gael drwy'r ddolen ganlynol:  
<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/addysg/grantiau-ac-ariannu/cludiant-ysgol-am-ddim.aspx>
- 5.12 Mae asesiad ar wahân o Effaith ar Gludiant y cynnig hwn wedi'i gynnal, ac mae ar gael drwy'r ddolen ganlynol:  
<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx>

## **6. Beth fydd effaith y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg?**

- 6.1 Wrth lunio'r cynnig hwn, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i effaith debygol y cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ar gyfer ymgylgoreion ynglŷn â'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn gyda gwerthusiad o'r effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg pe bai'r cynnig presennol yn cael ei roi ar waith.

### **Darpariaeth Bresennol: Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn.**

- 6.2 Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton wedi'i lleoli ym mhentref Picton ac mae'n ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 oed.
- 6.3 Mae Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon wedi'i lleoli yn nhref Treffynnon, oddeutu 6.69 milltir o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Mae Ysgol Gwenffrwd yn ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 oed.
- 6.4 Mae Ysgol y Llys, Prestatyn wedi'i lleoli yn nhref Prestatyn yng Nghyngor Sir Ddinbych, oddeutu 4.37 milltir o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Mae Ysgol y Llys yn ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 oed.

6.5 Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion llawn amser a rhan-amser ar y gofrestr ar gyfer y 5 mlynedd diwethaf ar sail CYBLD Ionawr.

Disgyblion	Ion 2011		Ion 2012		Ion 2013		Ion 2014		Ion 2015	
	LIA	Rh A	LIA	Rh A	LIA	RhA	LIA	RhA	FT	PT
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	63	4	58	6	57	4	52	3	48	5
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	160	25	172	32	180	31	195	39	202	28
Ysgol y Llys, Prestatyn	262	40	254	40	245	56	260	48	272	60

(LIA = Llawn Amser, RhA = Rhan-amser))

6.6 Mae'r tabl isod yn dangos Capasiti Llawn Amser, Nifer Derbyniadau a Lleoedd Heb eu Llenwi ar sail CYBLD Ionawr 2015 ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton.

Capasiti (Llawn Amser)	Nifer Derbyniadau	Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2015 (Llawn Amser)	Lleoedd Heb eu Llenwi	% o Leoedd Heb eu Llenwi
111	15	48	63	56.76%

111 yw capasiti swyddogol presennol yr Ysgol. Fodd bynnag, mae'r asesiad capasiti cyfredol hwn yn cynnwys ystafell ddosbarth symudol, sydd wedi dod i ben bellach. Bydd ailasesiad o'r capasiti yn lleihau capasiti llawn amser yr ysgol i 81 o leoedd llawn amser, a fyddai'n lleihau'r lleoedd heb eu llenwi o 56.76% i 40.74% ar sail niferoedd disgyblion ym mis Ionawr 2015 neu 45.67% o leoedd heb eu llenwi ar sail niferoedd disgyblion ym mis Medi 2015.

Fodd bynnag, byddai gostyngiad mewn capasiti yn gofyn i'r Cyngor ffurfioli drwy gyhoeddi hysbysiad (cynnig Statudol) ar sail y canllawiau ar Fesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru. Pe bai capasiti'r ysgol yn cael ei ostwng, byddai'r ysgol yn dal yn gymwys o dan y meini prawf lleoedd heb eu llenwi. Hefyd, gan fod yr ysgol eisoes yn y broses ffurfiol o ymgynghori ar gau ysgol yn statudol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, sy'n cael blaenoriaeth. Pe bai'r ysgol yn aros ar agor, bydd y Cyngor yn adolygu'r asesiad capasiti yn ffurfiol.

6.7 Mae disgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cael eu dysgu mewn grwpiau oedran cymysg. Mae disgyblion yn Ysgol Gwenffrwd yn cael eu dysgu mewn grwpiau oedran unigol. Mae Ysgol y Llys yn ysgol mynediad 2 ddosbarth, a'r strwythurau ystafelloedd dosbarth presennol yw Meithrin a Derbyn wedi'u cyfuno dros dri dosbarth, Blwyddyn 1 ar ei ben ei hun dros 2 ddosbarth, Blwyddyn 2 ar ei ben ei hun dros 2 ddosbarth, Blwyddyn 3 a 4 wedi'u cyfuno dros dri dosbarth a Blwyddyn 5 a 6 wedi'u cyfuno dros dri dosbarth.

- 6.8 Mae'r tablau isod yn dangos y dadansoddiad o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn (CYBLD Ionawr a Medi 2015)

Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (Cyfrwng Cymraeg)								
	Meithrin	Derbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6
CYBLD Ionawr 2015	5	3	6	7	5	11	9	7
Medi 2015	4	5	3	5	7	4	11	8

Mae'r dadansoddiad o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cynnwys niferoedd disgyblion ym mis Medi 2015 hefyd.

Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon (Cyfrwng Cymraeg)							
Meithrin	Derbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6
28	38	32	28	22	35	26	21

CYBLD Ionawr 2015

Ysgol y Llys, Prestatyn (Cyfrwng Cymraeg)							
Meithrin	Derbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6
60	48	53	39	38	35	36	23


CYBLD Ionawr 2015

- 6.9 Mae'r tablau ar y tudalennau canlynol yn dangos rhagamcanion disgyblion manylach ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton a'r ysgolion priodol agosaf a enwyd o fewn y dogfennau ac mae'n darparu rhagamcanion disgyblion ar sail data cyfrifiad ysgolion.

Niferoedd y Disgyblion llawn amser ar y Gofrestr a Nifer Rhagamcanol y Disgyblion – Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (Niferoedd Rhagamcanol)

*Ffynhonnell: Union ffigurau CYBLD Ionawr (2015) Rhagamcanion (lluniwyd Mai 2015 yn defnyddio data CYBLD Ionawr 2015) (Talgrynnwyd ffigurau rhagamcanol i fyny/i lawr)*

Oedran	Ion 15 - Union	Medi 2015 - Rhagamc	Medi 2016 – Rhagamc	Medi 2017 – Rhagamc	Medi 2018 - Rhagamc	Medi 2019 - Rhagamc
Derbyn	3	5	5	4	5	5
BI 1	6	3	5	5	4	5
BI 2	7	6	3	5	5	4
BI 3	5	7	6	3	5	5
BI 4	11	5	7	6	3	5
BI 5	9	11	5	7	6	3
BI 6	7	9	11	5	7	6
<b>Cyfanswm Niferoedd ar y Gofrestr</b>	<b>48</b>	<b>46</b>	<b>42</b>	<b>35</b>	<b>35</b>	<b>33</b>



\* Nid yw ffigurau rhagamcanol o fis Medi 2015 yn cael eu dangos uchod gan nad yw ffurflenni swyddogol ysgolion ar gyfer mis Medi 2015 wedi'u dilysu gydag Ysgol Gymraeg Mornant, Picton a Thîm Gwybodaeth Reoli Ysgolion Sir y Fflint. Fodd bynnag, ar sail nifer y disgyblion presennol ar Sytem ONE y Cyngor, bydd y rhagamcanion ar gyfer Ysgol Mornant, Picton yn lleihau, mae


hyn o ganlyniad i'r nifer isel o ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol, a rhywfaint o newid o ran disgyblion mewn grwpiau blwyddyn eraill i ysgolion eraill. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall ymgyngori statudol mewn perthynas â newid trefniadaeth ysgol achosi ansicrwydd yng nghymuned yr ysgol leol, a gall hyn gyfrannu at ostyngiad yn nifer y disgyblion.



Niferoedd y Disgyblion llawn amser ar y Gofrestr a Nifer Rhagamcanol y Disgyblion – Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon (Niferoedd Rhagamcanol)

*Ffynhonnell: Union ffigurau CYBLD Ionawr (2015) Rhagamcanion (Iluniwyd Mai 2015 yn defnyddio data CYBLD Ionawr 2015) (Talgrynnwyd ffigurau rhagamcanol i fyny/i lawr)*


Oedran	Ion 15 - Union	Medi 2015 - Rhagamc	Medi 2016 - Rhagamc	Medi 2017 - Rhagamc	Medi 2018 – Rhagamc	Medi 2019 - Rhagamc
Derbyn	38	28	33	33	31	32
BI 1	32	38	28	33	33	31
BI 2	28	32	38	28	33	33
BI 3	22	28	32	38	28	33
BI 4	35	22	28	32	38	28
BI 5	26	35	22	28	32	38
BI 6	21	26	35	22	28	32
<b>Cyfanswm Niferoedd ar y Gofrestr</b>	202	209	216	214	223	227



Niferoedd y Disgyblion llawn amser ar y Gofrestr a Nifer Rhagamcanol y Disgyblion – Ysgol y Llys, Prestatyn (Niferoedd Rhagamcanol)

*Ffynhonnell: Union ffigurau CYBLD Ionawr (2015) Rhagamcanion (Iluniwyd Mai 2015 yn defnyddio data CYBLD Ionawr 2015) (Talgrynwyd ffigurau rhagamcanol i fyny/i lawr)*

Oedran	Ion 15 - Union	Ion 16 - Rhagamc	Ion 17 - Rhagamc	Ion 18 - Rhagamc	Ion 19 - Rhagamc	Ion 2020 - Rhagamc
Derbyn	48	60	54	54	56	55
BI 1	53	48	60	54	54	56
BI 2	39	53	48	60	54	54
BI 3	38	39	53	48	60	54
BI 4	35	38	39	53	48	60
BI 5	36	35	38	39	53	48
BI 6	23	36	35	38	39	53
<b>Cyfanswm Niferoedd ar y Gofrestr</b>	272	309	327	346	364	380



6.10 Darperir y cyfartaleddau Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton a'r ysgolion priodol agosaf ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd diwethaf yn y tabl isod ochr yn ochr â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mewn rhai achosion, mae'r set ddata yn anghyflawn gan y gallai hyn arwain at nodi disgyblion unigol oherwydd niferoedd isel o fewn y cohort cysylltiedig ac felly maent wedi'u hepgor oherwydd hynny.

	2010	2011	2012	2013	2014
Gweithredu gan yr Ysgol, Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	*	*	11.3%	10.0%	*
Gweithredu gan yr Ysgol, Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	28.9%	24%	18.3%	15.5%	21.0%
Gweithredu gan yr Ysgol, Ysgol y Llys, Prestatyn	13.5%	17.4%	20.4%	18.8%	13.6%
Cyfartaledd Gweithredu gan yr Ysgol, Awdurdod Lleol (Sir y Fflint)	13.4%	13.0%	13.6%	12.6%	12.1%
Cyfartaledd Gweithredu gan yr Ysgol, Awdurdod Lleol (Sir Ddinbych)	12.2%	12.9%	12.8%	12.5%	12.5%
Cyfartaledd Gweithredu gan yr Ysgol, Cymru	15.5%	15.2%	15.6%	15.2%	15.1%
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	*	9.8%	13.2%	18%	17%
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	*	5.0%	4.2%	6.1%	13.6%
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Ysgol y Llys, Prestatyn	11.6%	6.4%	4.3%	5.3%	8.3%
Cyfartaledd Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Awdurdod Lleol (Sir y Fflint)	7.2%	7.1%	6.7%	7.1%	7.0%
Cyfartaledd Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Awdurdod Lleol (Sir Ddinbych)	11.5%	10.6%	11.8%	12.2%	12.8%
Cyfartaledd Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy Cymru	8.5%	8.7%	8.9%	9.2%	8.8%
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton â Datganiad	*	*	*	*	*
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon â Datganiad	*	*	*	*	*
Ysgol y Llys, Prestatyn â Datganiad	*	*	*	*	*
Cyfartaledd â Datganiad Awdurdod Lleol (Sir y Fflint)	1.9%	1.6%	1.4%	1.2%	1.3%
Cyfartaledd â Datganiad Awdurdod Lleol (Sir Ddinbych)	1.4%	1.4%	1.1%	0.9%	1.1%
Cyfartaledd â Datganiad Cymru	2.0%	1.9%	1.8%	1.7%	1.7%

Ffynhonnell: mylocalschool cym llyw – Gorffennaf 2015

- 6.11 Ar hyn o bryd, mae llai na 10\* disgybl gyda Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn.
- 6.12 Mae'r tabl isod yn dangos y cymarebau disgyblion athrawon ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf (2014).

Ysgol	Cymhareb
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	15.3
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	18
Ysgol y Llys, Prestatyn	20.2

*Ffynhonnell: mylocalschool cym llyw – Gorffennaf 2015*

- 6.13 Arolygwyd Ysgol Gymraeg Mornant, Picton gan Estyn y tro diwethaf ym mis Hydref 2014.

Crynhowyd adroddiad Estyn fel a ganlyn:

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella</b>	<b>Da</b>

Dyfarniad	Ystyr
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfodddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cwestiwn Allweddol	Perfformiad yr Ysgol
<b>CA1 – Pa mor dda yw'r deilliannau?</b>	<b>Digonol</b>
Safonau	Digonol
Lles	Da
<b>CA2 – Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Digonol</b>
Profiadau dysgu	Da
Addysgu	Digonol
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Amgylchedd dysgu	Da
<b>CA3 – Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
Arweinyddiaeth	Da
Gwella ansawdd	Da

Gweithio mewn partneriaeth	Da
Rheoli adnoddau	Da

<b>Perfformiad presennol</b>
<p>Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu;</li> <li>• safonau llythrennedd a rhifedd drwy'r ysgol yn dda</li> <li>• disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn ymddwyn yn foesgar a chwrtais;</li> <li>• y rhan fwyaf o ddisgyblion â syniad clir o'r cryfderau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella;</li> <li>• profiadau dysgu symbylol yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion;</li> <li>• darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig; ac</li> <li>• ansawdd y gynhaliaeth a'r gofal i ddisgyblion yn gynhwysfawr ac effeithiol</li> </ul> <p>Er hynny,</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• roedd cyflawniad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn y ddwy flynedd diwethaf yn isel;</li> <li>• nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain; ac</li> <li>• nid yw athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o wybodaeth asesu i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.</li> </ul>

<b>Rhagolygon gwella</b>
<p>Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• arweinyddiaeth strategol y pennaeth yn gadarn a phwrpasol ac wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth;</li> <li>• dealltwriaeth gadarn y staff a llywodraethwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella;</li> <li>• ystod eang o bartneriaethau yn hyrwyddo dysgu a lles y disgyblion yn effeithiol;</li> <li>• yr ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i lais y rhieni; a</li> <li>• rheolaeth ariannol yr ysgol yn gadarn.</li> </ul>

<b>Argymhellion</b>	
A1	Gwella perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
A2	Darparu gwell cyfleoedd i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain
A3	Gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion
A4	Sicrhau gwell cysondeb yn ansawdd llawysgrifen disgyblion cyfnod allweddol 2

Mar Adroddiad llawn Estyn ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6642021?\\_ga=1.226699485.1905148851.1444915482](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6642021?_ga=1.226699485.1905148851.1444915482)

6.14 Arolygwyd Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon gan Estyn y tro diwethaf ym mis Ionawr 2011.

Crynowyd adroddiad Estyn fel a ganlyn:

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella</b>	<b>Da</b>

Dyfarniad	Ystyr
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfodddhaol	Mae meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Cwestiwn Allweddol	Perfformiad yr Ysgol
<b>CA1 – Pa mor dda yw'r deilliannau?</b>	<b>Da</b>
Safonau	Da
Lles	Rhagorol
<b>CA2 – Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
Profiadau dysgu	Da
Addysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Amgylchedd dysgu	Da
<b>CA3 – Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
Arweinyddiaeth	Da
Gwella ansawdd	Da
Gweithio mewn partneriaeth	Da
Rheoli adnoddau	Da

<b>Perfformiad presennol</b>
<p>Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da neu well yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2;</li> <li>• bod yr ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau ysgogol i'r holl ddisgyblion sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol;</li> <li>• bod yr addysgu'n gyson dda gyda rhai gwersi yn dangos rhagoriaeth; a</li> </ul>

- bod ymddygiad y plant yn arbennig ar draws yr ysgol ac mae eu hagweddau yn adlewyrchu eu cyfranogiad llawn mewn dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod arweiniad y pennaeth a'r uwch dîm arwain yn dda ac maent wedi sefydlu diwylliant sy'n hybu gwelliant.
- bod trefniadau hunanfarnu yn gryfder yn yr ysgol.
- mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf; a
- bod gan y corff llywodraethu wybodaeth gynhwysfawr am berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill tebyg.

### Argymhellion

A1	Parhau i wella ansawdd ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2;
A2	Mireinio gweithdrefnau'r ysgol o ran ymateb i anghenion disgyblion mwy abl a thalentog.

Mar Adroddiad llawn Estyn ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6642082?\\_ga=1.175369314.1905148851.1444915482](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6642082?_ga=1.175369314.1905148851.1444915482)

6.15 Arolygwyd Ysgol y Llys, Prestatyn gan Estyn y tro diwethaf ym mis Rhagfyr 2012.

Crynowyd adroddiad Estyn fel a ganlyn:

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella</b>	<b>Da</b>

Dyfarniad	Ystyr
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu meysydd i'w gwella
Anfodddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwysu'r cryfderau

Cwestiwn Allweddol	Perfformiad yr Ysgol
<b>CA1 – Pa mor dda yw'r deilliannau?</b>	<b>Da</b>
Safonau	Da
Lles	Rhagorol
<b>CA2 – Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Rhagorol</b>
Profiadau dysgu	Rhagorol
Addysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Rhagorol
Amgylchedd dysgu	Rhagorol
<b>CA3 – Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
Arweinyddiaeth	Da
Gwella ansawdd	Da
Gweithio mewn partneriaeth	Da
Rheoli adnoddau	Da

### Perfformiad Presennol

Mae perfformiad Ysgol y Llys yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda;
- ansawdd gwaith llafar y disgyblion yn y Gymraeg ar draws yr ysgol yn dda iawn, o ystyried eu man cychwyn;
- lefelau presenoldeb ac ymddygiad yn uchel a bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac awyddus i ddysgu;
- profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol ac addysgu effeithiol yn cymell bron bob un o'r disgyblion i ddysgu ac ymfalchïo yn eu Cymreictod;
- ethos teuluol, gofalgwr a chroesawgar iawn lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus ac yn cael eu trin â pharch;
- y cymorth a'r cyfarwyddyd rhagorol yn cyfrannu'n sylweddol at les disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth â gweledigaeth glir yn seiliedig ar hybu Cymreictod a lles y plant sydd wedi cael ei chyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr;
- pob aelod o staff yn gweithio fel tîm ac yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol;
- trefniadau hunanarfarnu effeithiol yn adnabod blaenoriaethau addas sy'n rhoi pwyslais clir ar godi safonau; a bod
- cydweithio effeithiol gydag ystod o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion.



<b>Argymhellion</b>	
A1	Codi safonau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2.
A2	Sicrhau gweithgareddau dysgu fydd yn ymestyn disgyblion o bob gallu yn llawn.
A3	Cysoni'r arfer asesu ar gyfer dysgu trwy sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan mwy gweithredol wrth arfarnu eu gwaith eu hunain a gosod targedau ar gyfer gwella.
A4	Sicrhau bod trefniadau hunanarfarnu yn fwy dadansoddol mewn perthynas ag effeithiolrwydd systemau a strategaethau'r ysgol.

Mar Adroddiad llawn Estyn ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6632227?\\_ga=1.119285065.1905148851.1444915482](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6632227?_ga=1.119285065.1905148851.1444915482)

- 6.16 Mae'r data sydd wedi'i gynnwys yn y tablau isod yn darparu'r deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (disgyblion 7 oed) a Chyfnod Allweddol 2 (11 oed) ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn o gymharu â chyfartaleddau lleol, cenedlaethol a'u teuluoedd priodol ar gyfer y tair blynedd diwethaf o ddata wedi'i wirio (2012-2014).

Cyflawnir y Dangosydd Deilliannau Cyfnod Sylfaen pan mae disgybl yn cyflawni'r meincnod cenedlaethol ar gyfer disgyblion 7 oed (Canlyniad 5 neu uwch) yn y tri maes craidd o ddysgu Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

Cyflawnir y Dangosydd Pwnc Craidd pan mae'r meincnod cenedlaethol ar gyfer disgyblion 11 oed (Lefel 4 neu uwch y Cwricwlwm Cenedlaethol) yn cael ei gyflawni gan ddisgybl yn y tri phwnc craidd, sef Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Fel ysgol fach, mae maint cohortau disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn y flwyddyn asesu statudol wedi bod yn is na'r nifer sy'n ofynnol i rannu data gyda'r cyhoedd yn rheolaidd a dyna pam na fyddai wedi'i chynnwys ar wefannau fel My Local School. Mae hon yn weithdrefn y mae Llywodraeth Cymru yn cytuno arni i ddiogelu disgyblion unigol y gellid eu hadnabod yn hawdd. Fodd bynnag, at ddibenion y ddogfen ymgynghori hon, mae wedi'i chynnwys isod.

Fel ysgol fach gyda cohortau disgyblion bach iawn, lle mae dim ond un disgybl yn gallu cynrychioli canran fawr neu hyd yn oed yr holl gohort, mae angen cydnabod bod cymariaethau perfformiad o un flwyddyn i'r llall yn ystadegol annibynadwy ac mae angen eu trin yn ofalus.

Disgyblion 7 oed	<b>Dangosydd Deilliannau Cyfnod Allweddol</b>		
	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>
<b>Ysgol Gymraeg Mornant, Picton</b>	44.4%	50.0%	50.0%
Cyfartaledd Teulu	78.6%	79.4%	82.9%
Cyfartaledd Lleol	79.7%	84.4%	84.5%
Cyfartaledd Cenedlaethol	80.5%	83.0%	85.2%

Disgyblion 7 oed	<b>Dangosydd Deilliannau Cyfnod Allweddol</b>		
	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>
<b>Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon</b>	76.9%	75.7%	80.8%
Cyfartaledd Teulu	78.4%	83.7%	84.4%
Cyfartaledd Lleol	79.7%	84.4%	84.5%
Cyfartaledd Cenedlaethol	80.5%	83.0%	85.2%

Disgyblion 7 oed	<b>Dangosydd Deilliannau Cyfnod Allweddol</b>		
	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>
<b>Ysgol y Llys, Prestatyn</b>	90.2%	94.9%	86.8%
Cyfartaledd Teulu	81.5%	81.5%	87.8%
Cyfartaledd Lleol	81.7%	84.9%	86.1%
Cyfartaledd Cenedlaethol	80.5%	83.0%	85.2%

Disgyblion 11 oed	<b>Dangosydd Pynciau Craidd</b>		
	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>
<b>Ysgol Gymraeg Mornant, Picton</b>	88.9%	75.0%	87.5%
Cyfartaledd Teulu	92.5%	84.4%	86.3%
Cyfartaledd Lleol	81.3%	85.0%	86.1%
Cyfartaledd Cenedlaethol	82.6%	84.3%	86.1%

Disgyblion 11 oed	Dangosydd Pynciau Craidd		
	2012	2013	2014
<b>Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon</b>	82.4%	88.2%	90.0%
Cyfartaledd Teulu	88.1%	84.7%	87.7%
Cyfartaledd Lleol	81.3%	85.0%	86.1%
Cyfartaledd Cenedlaethol	82.6%	84.3%	86.1%

Disgyblion 11 oed	Dangosydd Pynciau Craidd		
	2012	2013	2014
<b>Ysgol y Llys, Sir Ddinbych</b>	91.9%	86.2%	86.7%
Cyfartaledd Teulu	88.4%	86.7%	88.7%
Cyfartaledd Lleol	83.5%	86.0%	86.6%
Cyfartaledd Cenedlaethol	82.6%	84.3%	86.1%

6.17 Mae'r System Categoriiddio Ysgolion Cenedlaethol wedi'i chyflwyno bellach yng Nghymru. Mae'r System yn cynnig ffordd glir a syml o ddeall pa mor dda mae ysgol yn cyflawni ar gyfer ei holl ddisgyblion, pa mor effeithiol y mae'n cael ei harwain a'i rheoli, ansawdd yr addysgu a'r dysgu a'r lefel o gymorth a her sydd eu hangen arni i gyflawni hyd yn oed yn well.

Mae rhagor o wybodaeth am y System Categoriiddio Ysgolion Cenedlaethol ar gyfer ysgolion ar gael yn y ddogfen ganllaw a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu diffiniadau ar gyfer pob un o'r deilliannau.

Bydd categori pob ysgol yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol; dangosir y wybodaeth categoriiddio ddiweddaraf o fis Ionawr 2014 ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Sir Ddinbych isod:

Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	
Grŵp Safonau	4
Capasiti Gwella	B
Categori Cymorth	Oren

Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	
Grŵp Safonau	3
Capasiti Gwella	A
Categori Cymorth	Melyn

Ysgol y Llys, Prestatyn	
Grŵp Safonau	3
Capasiti Gwella	B
Categori Cymorth	Melyn

Crynodeb Data: Ysgolion Cynradd Lleol (Ion 2014), Ffynhonnell: My Local School

	Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	Ysgol y Llys, Prestatyn
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Blwyddyn: 2014)	55	234	308
Prydau ysgol am ddim – cyfartaledd 3 blynedd (Blwyddyn: 2014)	14%	8.8%	10.1%
Cymhareb Disgyblion Athrawon (Blwyddyn: 2014)	15.3	18	20.2
% Presenoldeb yn ystod y flwyddyn (Blwyddyn: 2014)	94.4%	96.3%	94.9%
Cyllideb ysgol y disgybl (Blwyddyn: 2015)	£4,201	£3,019	£3,681
Categori cymorth (Blwyddyn: 2014)	Amber	Yellow	Yellow
% y Disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd ym Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn: 2014)	*	80.8%	86.8%
% y Disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd mewn pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn: 2014)	87.5%	90%	86.7%

- 6.18 Mae gan Ysgol Gymraeg Mornant, Picton Bennaeth parhaol ar hyn o bryd. Mae gan Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn Benaethiaid parhaol ar hyn o bryd.
- 6.19 Nid yw Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cynnig gofal cofleidiol<sup>3</sup>, ond mae ganddi grŵp Cylch Meithrin sy'n gweithredu ar safle'r ysgol. Mae Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon yn cynnig gofal cofleidiol drwy grŵp Cylch Meithrin sy'n gweithredu ar safle'r ysgol. Nid yw Ysgol y Llys, Sir Ddinbych yn cynnig gofal cofleidiol, ond mae ganddi grŵp Cylch Meithrin sy'n gweithredu o safle'r ysgol.

## **7. Gwerthuso Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg**

7.1 Mae'r Cyngor o'r farn y byddai rhoi'r cynnig cyfredol ar waith yn gwella safon ac ansawdd cyfredol addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac yn fwy penodol ar gyfer disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Mae'r adolygiad wedi ceisio mynd i'r afael â'r heriau yn yr ardal sydd â'r potensial i effeithio ar gynaliadwyedd darpariaeth o ansawdd uchel yn y dyfodol. Mae'r cynnig hwn a chynigion cysylltiedig yn ceisio cynnal y safon gyfredol gyda golwg ar gryfhau a gwella darpariaeth addysgol yn yr ardal am y rhesymau canlynol:

- Deilliannau (safonau a lles)
- Darpariaeth (profiadau dysgu, addysgu, gofal, cymorth a chanllawiau, a'r amgylchedd dysgu)
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

### **Effaith ar ddeilliannau – Safonau a Lles a Chyflawni'r Cwricwlwm**

- 7.2 Mae'r Cyngor o'r farn y byddai'r cynigion o leiaf yn cynnal y safon deilliannau a chyraeddiadau bresennol pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith. Byddai Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Sir Ddinbych yn parhau i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2.
- 7.3 Nodir deilliannau disgyblion yn Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn yn adran 6 y ddogfen hon yn erbyn cyfartaleddau teulu, lleol a chenedlaethol. Mae deilliannau cyffredinol ardal Gwesbyr-Picton yn is na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol ac mae hynny'n dangos bod pryder am ansawdd y ddarpariaeth addysgol yn ardal Gwesbyr-Picton. Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, byddai gan y disgyblion presennol yn Ysgol Gymraeg

---

<sup>3</sup> Diffinnir gofal cofleidiol fel Gofal Plant sy'n cael ei ddarparu yn yr ysgol y tu allan i oriau blynyddoedd cynnar craidd a ynigir fel sesiynau cyn meithrin.

Mornant, Picton fynediad at ddarpariaeth amgen sy'n cynnig safonau uwch na'r safonau y mae'r disgyblion yn eu derbyn ar hyn o bryd.

- 7.4 Mae Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn yn cynnig cwricwlwm llawn, eang a chytbwys. Pe bai'r cynllun presennol yn cael ei roi ar waith, byddai Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn, yn gallu parhau i ddarparu'r cwricwlwm yn y cyfnod sylfaen a'r cyfnod allweddol pe baent yn derbyn disgyblion o ganlyniad i roi'r cynnig hwn ar waith. Ni fyddai Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn yn cael eu heffeithio'n niweidiol o ran darpariaeth y cwricwlwm pe baent yn derbyn disgyblion o ganlyniad i roi'r cynnig ar waith.
- 7.5 Mae lleoedd heb eu llenwi ym mhob ysgol amgen, ni fyddai cynnydd yn niferoedd y disgyblion yn yr ysgolion hyn o ganlyniad i'r cynnig yn effeithio'n negyddol o reidrwydd ar allu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm.
- 7.6 Mae disgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cael eu haddysgu mewn grwpiau blwyddyn oedran cymysg ac yn cael eu haddysgu gyda'u cyfnod allweddol priodol. Mae Ysgol Gwenffrwd yn cael eu haddysgu mewn grwpiau blwyddyn oedran unigol. Mae disgyblion yn Ysgol y Llys, Prestatyn yn cael eu haddysgu mewn grwpiau blwyddyn oedran cymysg ac yn cael eu haddysgu yn eu cyfnod allweddol priodol. Ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddodd Estyn adroddiad 'Maint Ysgolion ac Effeithiolrwydd Addysgol'. Datgelodd yr astudiaeth bod ysgolion bach yn wynebu mwy o heriau o ran cyflawni'r cwricwlwm. Mae hyn yn gysylltiedig â chyfyngiadau ariannol sy'n wynebu ysgolion bach gan fod cyllid ysgolion yn gysylltiedig â niferoedd disgyblion. Os yw niferoedd disgyblion yn isel, mae ysgolion yn cael eu cyfyngu gan y materion cyllid hyn wrth sefydlu corff staffio.
- 7.7 Mae ysgolion sydd â niferoedd disgyblion uwch, fel Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, yn gallu recriwtio ystod ehangach o staff addysgu a thimau rheolwyr canol i sefydlu arweinwyr pwnc a chwricwlwm. Mae gan staff fwy o gyfle i arbenigo mewn gwahanol feysydd gwybodaeth a phwnc sy'n helpu i sbarduno safonau a deilliannau. Mewn ysgolion bach, mae'n rhaid i staff gynllunio'n ddigonol ar gyfer ystod eang o ddisgyblion o wahanol oedrannau a galluoedd; mae llai o gyfleoedd i ddatblygu staff os oes llai o staff mewn ysgol.

## **8.0 Darpariaeth amgen**

- 8.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd rhieni/disgyblion am ddewis ysgol heblaw am eu hysgol briodol agosaf o bosibl pe bai'r cynnig presennol yn cael ei roi ar waith. Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ysgolion amgen a nodir yn yr ardal y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt. Mae gwybodaeth

berthnasol am yr ysgolion hyn, gan gynnwys adroddiadau diweddaraf Estyn, deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, niferoedd y disgyblion ar y gofrestr a rhagolygon disgyblion ar gael yn adran 4 ac adran 6 y ddogfen hon.

8.2 Mae'r Cyngor wedi nodi ysgolion yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych o ystyried lleoliad Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Mae rhai disgyblion yn byw mewn sir gyfagos, felly mae'n debygol o effeithio ar Gyngor Sir Ddinbych. Bydd y ddogfen hon yn cael ei hanfon i Gyngor Sir Ddinbych fel rhan o'r ymgynghoriad.

8.3 Mae'r Cyngor wedi nodi'r ysgolion canlynol a allai gael eu heffeithio gan y cynnig hwn (Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ac Ysgol y Llys, Prestatyn).

Ysgolion	Lleoliad	Pellter o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (yn fras)	Math	Categori Iaith
Ysgol Gwenffrwd, Stryd Chwitfordd, Treffynnon, Sir y Fflint CH8 7NJ	Treffynnon	6.69 Milltir	Cymunedol	Cyfrwng Cymraeg
Ysgol y Llys, Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn, Sir Ddinbych, LL19 8RP	Prestatyn	4.37 Milltir	Cymunedol	Cyfrwng Cymraeg

*Flynhonnell Bellter: Route Finder 3.41 System Fapio Cyngor Sir y Fflint*

## 9. Digonolrwydd Adeiladau Ysgolion ac Effaith y Cynnig ar Ansawdd Adeiladau

### Rheoli Asedau

9.1 Mae'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol gadw data rheoli asedau ar gyfer portffolio eu hysgolion. Mae data Rheoli Asedau yn ddull hanfodol o lywio penderfyniadau strategol (ynghyd â meini prawf eraill) o ran rheoli adeiladau ysgolion ar gyfer materion fel blaenoriaethu rhaglen gynnal a chadw, prosiectau cyfalaf a Newid Trefniadaeth Ysgolion.

9.2 Mae'r canllawiau ar Reoli Asedau gan Gonsortiw Awdurdodau Lleol Cymru yn gwneud y Datganiad canlynol:

Mae'r prif ffyrdd ymarferol lle gall yr ystâd weithredol effeithio'n niweidiol ar ddarpariaeth gwasanaethau fel a ganlyn:

- a) Gweithredu o ormod o adeiladau
- b) Tanwario ar waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio

- c) Gweithredu o eiddo aneffeithiol
- d) Dim digon o fuddsoddiad mewn adeiladau/ cyfleusterau priodol

Wrth adolygu adeiladau a safleoedd ysgolion, bydd y Cyngor yn ystyried gofynion Statudol a chanllawiau bwletinau ar adeiladau perthnasol.

### **Gwybodaeth am Gyflwr**

- 9.3 Cynhelir arolygon Cyflwr ysgolion Sir y Fflint gan ymgynghorwyr allanol sy'n defnyddio canllawiau yr Adran Addysg a Chyflogaeth ar Reoli Asedau ac sy'n cynnwys gwaith sy'n ofynnol o fewn y 5 mlynedd nesaf i ddod â'r eiddo/adeilad i safon dda. Fodd bynnag, nid yw mân waith cynnal a chadw o ddydd i ddydd (e.e. newid cloeon, gwydr wedi torri, wasieri tapiau ac ati) a mân waith rheolaidd (e.e. arolygu, profi, glanhau, gwasanaethu, addasu, atgyweirio ac ati) yn cael eu heithrio fel arfer heblaw oni bai eu bod yn peryglu bywyd ac aelodau neu'n ymwneud â risg sylweddol i iechyd a diogelwch pe na baent yn cael eu gwneud. Mae arolygon yn cael eu graddio fel a ganlyn:

- A - **Da**. Cyflawni yn ôl y bwriad a gweithredu'n effeithlon
- B - **Boddhaol**. Cyflawni yn ôl y bwriad ond yn dangos mân ddirywiad
- C - **Gwael**. Dangos diffygion sylweddol a/neu ddim yn gweithredu yn ôl y bwriad
- D - **Drwg**. Bywyd wedi dod i ben a/neu risg ddifrifol o fethiant ar ddigwydd.

### **Gwybodaeth am Addasrwydd**

- 9.4 Cynhelir arolygon addasrwydd ysgolion Sir y Fflint gan Swyddogion y Cyngor yn dilyn canllawiau cenedlaethol yr Adran Addysg a Chyflogaeth ar Reoli Asedau sydd wedi'u graddio fel a ganlyn:

- A - **Da**. Cyfleusterau yn addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles mewn ysgolion.
- B - **Boddhaol**. Cyflawni yn ôl y bwriad ond ddim yn cefnogi'r cwricwlwm mewn rhai meysydd
- C - **Gwael**. Atal dulliau addysgu/effaith niweidiol ar drefniadaeth ysgolion
- D - **Drwg**. Adeiladau yn atal gallu'r staff yn ddifrifol i gyflawni'r cwricwlwm.

### **Mesur Capasiti Ysgolion**

- 9.5 Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol ddefnyddio dull gorfodol Llywodraeth Cymru o fesur capasiti ysgol drwy ddefnyddio ffurflen Asesu Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru



9.6 Ceir lleoedd heb eu llenwi drwy gymharu capasiti'r ysgol yn erbyn ffurflenni niferoedd disgyblion (union nifer y disgyblion) ac maent yn cael eu categorio fel a ganlyn ar System Rheoli Asedau'r Cyngor:

A – llai na 10% o leoedd heb eu llenwi neu 3% dros gapasiti

B -10-25% o leoedd heb eu llenwi neu 4-10% dros gapasiti

C – mwy na 10% dros gapasiti

D - mwy na 25% o leoedd heb eu llenwi neu

D – ysgolion bach gyda llai na 90 o leoedd a mwy na 25% a 30 o leoedd heb eu llenwi

### **Sgoriau cyflwr ac addasrwydd**

Ysgol	Cyflwr Cyffredinol	Addasrwydd Cyffredinol
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	B	C
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	C	C
Ysgol y Llys, Prestatyn	A	A

9.7 O gymharu â Bwletin Adeiladu 99 yr Adran Addysg a Sgiliau. Briefing Framework for Primary School Projects, nodwyd y materion addasrwydd canlynol:

Mae'r ddogfen bwletin adeiladu 99 ar gael ar y ddolen ganlynol:

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/288108/building\\_bulletin\\_99\\_-\\_briefing\\_framework\\_for\\_primary\\_school\\_projects.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/288108/building_bulletin_99_-_briefing_framework_for_primary_school_projects.pdf)

### **Crynodeb o Addasrwydd**

9.8 Materion Addasrwydd Ysgol Gymraeg Mornant, Picton

Arolygwyd Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ar 29 Ionawr 2008 gan Gyngor Sir y Fflint, ac fe'i hadolygwyd ar 14 Rhagfyr 2009 gan EC Harris, Built Asset Consultancy

- Mae sylfeini'r ystafelloedd dosbarth yn is na'r safonau gofynnol
- Nid oes neuadd bwrpasol – defnyddir y Neuadd at sawl pwrpas
- Nid oes ystafell gyfarfod arbennig
- Nid oes derbynfa ddiogel
- Mae'r Pennaeth yn rhannu swyddfa gyda'r ysgrifenyddes

- Nid oes maes parcio arbennig – mae staff yn defnyddio plot ochr ffordd y tu allan i ffiniau'r ysgol
- Man chwarae caled cyfyngedig o gymharu â chapasiti'r ysgol
- Mae rhannau o'r ysgol yn cael eu tanddefnyddio oherwydd niferoedd y disgyblion
- Mae arwyneb chwarae wyneb caled y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei rannu gyda'r Cylch Meithrin
- Dim ardal ddysgu awyru agored dan do
- Dim man chwarae meddal
- Nid oes digon o awyr mewn un ystafell ddosbarth
- Mae rhan o'r meysydd chwarae yn wlyb ac ni ellir ei defnyddio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn oherwydd y draeniad gwael
- Dim cyfleusterau newid i ddisgyblion
- Dim ystafelloedd grŵp bach (defnyddio rhan o'r llyfrgell)
- Dim mannau ymarferol arbenigol
- Dim stiwdio
- Mae pob lôn sy'n arwain at yr ysgol yn lonydd cul

Ers yr arolwg addaswydd diwethaf, mae'r materion addaswydd canlynol wedi cael sylw:

- Dim ardal ddysgu awyr agored dan do
- Mae rhan o'r meysydd chwarae yn wlyb ac ni ellir ei defnyddio'r rhan fwyaf o'r flwyddyn oherwydd y draeniad gwael
- Dim mannau ymarferol arbenigol
- Dim digon o awyru yn yr ystafell ddosbarth – nid mater addaswydd yw hyn

#### 9.9 Materion Addaswydd Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon

Arolygwyd Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon ar 28 Chwefror 2008 gan Gyngor Sir y Fflint, ac fe'i hadolygwyd ar 1 Ebrill 2010 gan EC Harris, Built Asset Consultancy

- Problemau ynni solar mewn nifer o ystafelloedd dosbarth
- Cyfarpar arbenigol wedi'i osod mewn rhai ystafelloedd dosbarth gan mai hen ysgol uwchradd yw'r adeilad
- Mae man chwarae caled y Blynyddoedd Cynnar ar lethr a rhaid dringo grisiau i'w gyrraedd
- Dim mynediad anabl i fannau chwarae'r Blynyddoedd Cynnar
- Mae'r ysgol ar bedair lefel
- Mae mynedfa gul i'r maes parcio
- Nid oes cyfleusterau gollwng teithwyr
- Mae'r maes parcio yn rhy fach ar gyfer staff ac ymwelwyr

### 9.10 Ysgol Y Llys, Prestatyn

Mae Ysgol y Llys, Prestatyn wedi'i hadnewyddu a'i hymestyn yn ddiweddar a chwblhawyd y gwaith y llynedd. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau bod cyflwr ac addasrwydd Ysgol y Llys, Prestatyn yn gyfwerth â gradd 'A'.

Yn dilyn y gwaith diweddar a wnaed yn Ysgol y Llys, Prestatyn, mae ôl-groniad y gwaith cynnal a chadw wedi'i leihau. Nid oes unrhyw broblemau cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn yr ysgol ar hyn o bryd.

#### **Gwybodaeth am yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw**

### 9.11 Mae'r Codau Blaenoriaeth ar gyfer yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw (diffiniad) fel a ganlyn:-

Blaenoriaeth 1: Gwaith brys i'w gyflawni o fewn blwyddyn

Blaenoriaeth 2: Gwaith hanfodol i'w gyflawni o fewn 2 flynedd

Blaenoriaeth 3: Gwaith [a bennir yn] ddymunol sydd angen ei wneud o fewn 3 i 5 mlynedd

Blaenoriaeth 4: Gwaith [a bennir yn] hirdymor sydd angen ei wneud y tu allan i'r cyfnod (cylch) 5 mlynedd

### 9.12 Mae'r elfen Cyfanswm 1 - 3 yn diffinio buddsoddiad ariannol pum mlynedd ac mae elfen 4 yn diffinio buddsoddiad ariannol chwe i ddeng mlynedd.

Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (dyddiad arolwg, 15 Ebrill 2013)

Elfen	Amcangyfrifon cost Blaenoriaeth 1 (£)	Amcangyfrifon cost Blaenoriaeth 2 (£)	Amcangyfrifon cost Blaenoriaeth 3 (£)	Amcangyfrifon cost Blaenoriaeth 4 (£)	Cyf
03 Nenfydau	0	1,276	0	0	1,276
04 Waliau allanol, ffenestri a drysau	0	2,187	0	0	2,187
05 Waliau a drysau mewnol	0	495	0	0	495
07 Gwasanaethau mecanyddol	0	580	0	0	580

08 Gwasanaethau trydanol	0	2,255	0	0	2,255
09 Ailaddurno	0	2,814	9,686	0	12,499
10 Celfi gosod a gosodiadau	0	0	0	0	0
11 Mannau allanol	0	110	0	0	110
<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>9,716</b>	<b>9,686</b>	<b>0</b>	<b>19,402</b>

9.13 Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon (dyddiad arolwg 18 Gorffennaf 2014)

Elfen	Amcangyfrifon cost Blaenoriaeth 1 (£)	Amcangyfrifon cost Blaenoriaeth 2 (£)	Amcangyfrifon cost Blaenoriaeth 3 (£)	Amcangyfrifon cost Blaenoriaeth 4 (£)	Cyf
02 Lloriau a grisiau	0	5,002	74,413	0	79,419
03 Nenyfau	0	8,869	244	0	9,113
04 Waliau allanol, ffenestri a drysau	0	35,469	649	0	36,118
05 Waliau a drysau mewnol	0	1,870	0	0	1,870
07 Gwasanaethau mecanyddol	0	217,223	550	0	217,773
08 Gwasanaethau trydanol	0	4,863	0	0	4,863
09 Ailaddurno	0	12,170	61,147	0	73,317
11 Mannau allanol	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>285,466</b>	<b>137,003</b>	<b>0</b>	<b>£422,468</b>

#### 9.14 Ysgol y Llys, Prestatyn

Ar ôl y gwaith a wnaed yn yr ysgol hon, mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw wedi'i leihau. Nid oes unrhyw faterion cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar hyn o bryd yn yr ysgol neu ar safle ehangach yr ysgol.

#### **Llai o Adnoddau**

- 9.15 Mae canran y lleoedd heb eu llenwi yn Sir y Fflint yn 17% sy'n uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 10% o hyd.
- 9.16 Mae gormod o leoedd heb eu llenwi yn clymu i fyny adnoddau. Gan fod cyllid a darpariaeth ysgolion yn cael eu pennu'n bennaf yn ôl niferoedd disgyblion, mae capasiti dros ben yn golygu bod swm anghymesur o gyllid yn cael ei wario at seilwaith (fel adeiladau) ac ar "gostau sefydlog" cynnal ysgol (fel arweinyddiaeth a gweinyddu).
- 9.17 Gellid gwneud defnydd gwell o'r cyllid hwn i sicrhau bod cymarebau disgyblion athrawon yn cael eu cynyddu i wneud gwahaniaeth uniongyrchol i ddysgwyr. Wrth i gyllid gwasanaethau cyhoeddus ostwng yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae'r achos dros ail-flaenoriaethu a newid yn dod hyd yn oed yn fwy anorfod.
- 9.18 Mae'r holl ysgolion amgen yn yr ardal leol yn darparu amgylcheddau adeiledig priodol i gefnogi dysgu. Felly, mae'r cyngor o'r farn na fyddai unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw ddarpariaeth o ran digonolrwydd yr adeilad pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith. Mae capasiti digonol o fewn y rhwydwaith ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n cael eu dadleoli o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton.

#### **10. Beth fydd effaith y cynnig ar gyllido ysgolion?**

- 10.1 Gall peidio â mynd i'r afael â materion trefniadaeth ysgolion arwain at batrymau cyllid anghyfartal ac annheg lle mae rhai ysgolion yn derbyn cyfran anghymesur o gyllid ar draul disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill yn yr ardal, mae hyn yn fwyaf perthnasol yn achos ysgolion sy'n cael eu dosbarthu fel ysgolion bach. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer ysgolion gyfrannu at sefydlu patrwm cyllido ysgolion tecach.
- 10.2 Yn unol â gofynion rheoleiddio, mae gan Gyngor Sir y Fflint fformiwla cyllido ysgolion sy'n fethodoleg ar gyfer pennu cyfran y gyllideb ar gyfer pob ysgol yn y Sir. Mae'r fformiwla'n cael ei hadolygu bob blwyddyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol, mae diwygiadau'n cael eu gwneud i adlewyrchu newidiadau mewn cyllid a pholisi. Mae'r fethodoleg fanwl a chyfrannau'r gyllideb

yn cael eu hanfon i bob ysgol a chyhoeddir crynodeb, y cyfeirir ato fel datganiad cyllideb adran 52.

- 10.3 Mae ysgolion yn derbyn cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol o fis Ebrill i'r mis Mawrth canlynol ac mae hyn yn seiliedig ar y disgyblion ym mhob ysgol yn y mis Medi cyn y flwyddyn ariannol. Mae datganiad cyllideb adran 52 2015/16 wedi'i ddefnyddio fel y sail ar gyfer dadansoddi.
- 10.4 Yn 2015/16, derbyniodd Ysgol Gymraeg Mornant ddyraniad cyllid fformiwla o £240,408 sy'n £4,411 y disgybl, sy'n golygu mai'r ysgol oedd y 5ed uchaf i gael ei chyllido fesul disgybl yn Sir y Fflint, ac roedd £1,142 yn uwch na'r cyllid cyfartalog fesul disgybl yn Sir y Fflint. Mae'r lefel uwch o gyllid fesul disgybl yn adlewyrchu'r angen i roi cymhorthdal i ysgolion bach drwy gynnwys cyfandaliadau o fewn y fformiwla cyllido, ac mae hefyd yn adlewyrchu'r costau premiwm uwch fesul disgybl mewn ysgolion llai.
- 10.5 Mae'r tabl isod yn cynnwys y cyllid fesul disgybl ar gyfer yr holl ysgolion sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig.

Ysgol	Cyllid fesul Disgybl 2015/16	Dyraniad Cyllideb 15/16 (£)
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	£4,411	£240,408
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	£3,030	£657,473
Ysgol y Llys, Prestatyn	£3,536	£1,077,000

\* Bydd y fformiwlâu cyllid ar gyfer Ysgol y Llys, Prestatyn yn seiliedig ar fethodoleg Cyngor Sir Ddinbych.

- 10.6 Mae ysgolion yn wynebu pwysau costau sylweddol, fel cynnydd yng nghyfraniad pensiwn cyflogwyr, cyflwyniad y Pensiwn Haen Unigol sy'n arwain at gyfraniadau YG uwch i gyflogwyr, dyfarniadau tâl a chwyddiant cyffredinol. Yn sgil mesurau caledi, mae cyllidebau ysgolion dan bwysau cynyddol, a bydd Cyllideb yr Ysgol yn ymgodi o 1% yn 2016/17 sy'n golygu mewn termau real y bydd ysgolion yn gorfod gwneud arbedion o tua 2% i amsugno pwysau costau.

- 10.7 Gan ddefnyddio model cyllido 2015/16 ac ar sail niferoedd disgyblion ym mis Medi 2015 a'r amcangyfrif o niferoedd disgyblion ar gyfer mis Medi 2016, byddai Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn derbyn y dyraniad fformiwla canlynol:

Blwyddyn Ariannol	Niferoedd Disgyblion	Dyraniad Fformiwla Amcangyfrifedig *	Cyllid Fesul Disgybl	Gostyngiad yn y Gyllideb o gymharu â 2015/16	Pwysau Chwyddiannol o 2%	Gostyngiad Termaw Real yn y gyllideb
2016/17	46.5	£218,502	4,699	-21,905	-4,370	-26,275
2017/18	42	£204,276	£4,864	-36,131	-4,086	-40,217

\*Ar sail Model Cyllido 2015/16 – Yn cynnwys disgyblion Meithrin Rhan-amser

- 10.8 Gyda llai o gyllid oherwydd gostyngiad yn niferoedd disgyblion, mae gostyngiad mewn cyllidebau termaw real oherwydd pwysau chwyddiannol ar wydnwch ariannol yr ysgol yn bryder sylweddol.
- 10.9 Pe bai Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cau, byddai cyllid seiliedig ar ddisgyblion yn dilyn disgyblion i'r ysgol o'u dewis. Gan na ellir rhagweld dewis rhieni ar hyn o bryd at ddibenion modelu, rhagdybir y byddai 100% o'r disgyblion yn symud i Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon. Dangosir effaith y dyraniadau fformiwla ar Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon yn y tabl isod.

Ysgol	Cyllid Fesul Disgybl 2015/16	Dyraniad Cyllideb (£)	Cynnydd mewn Cyllid
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	£2,899	£786,984	£129,512

- 10.10 Gan fodd lleoedd ysgol amgen ar gael yn yr ardal, ni fyddai gofyn buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion eraill o ganlyniad i'r cynnig.
- 10.11 Mae arbedion eraill y gellid eu gwneud yn cynnwys gostyngiad yn ôl-groniad gwaith cynnal a chadw'r Cyngor o £19,402 a gostyngiad mewn costau gwasanaethu cynnal a chadw cylchol ar gyfer profion clefyd y lleng filwyr, nwy a thrydan (heb ei gynnwys yn y cyfrifiad o arbedion).
- 10.12 Mae rhai costau cludiant presennol gwerth £34,200 y flwyddyn yn gysylltiedig ag Ysgol Gymraeg Mornant, Gwesbyr-Picton. Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, byddai gan 39 o ddisgyblion yr hawl i gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i'w hysgol agosaf, sef naill ai Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon neu Ysgol y Lllys, Prestatyn, ar y sail bod y daith yn fwy na 2 filltir ac yn un sy'n cael ei hystyried yn

beryglus. Amcangyfrifir y byddai'r gost flynyddol o ddarparu cludiant rhwng y cartref a darpariaeth amgen yn gostwng y costau cludiant i tua £26,600.

10.13 Mae'r arbedion clir y gellid eu cyflawni pe bai'r cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cael ei roi ar waith fel a ganlyn:

Arbedion/Costau	Swm
Arbedion Cyllid Fformiwla	£110,896
Arbedion Ôl-groniad Cynnal a Chadw	£19,402
Costau Cludiant	-£26,600 (costau cludiant presennol o £34,200) Arbedion Cludiant o £7,600
Arbedion Arlwygo	£6,000
Cyfanswm Arbedion Clir	<b>£143,898</b>

10.14 Cludir prydau ysgol i Ysgol Gymraeg Mornant, Picton o Ysgol Gynradd Gymunedol Gronant. Mae hyn yn golygu bod y bwyd yn cael ei baratoi gan Ysgol Gynradd Gymunedol Gronant ac yna'n cael ei gludo i'r ysgol yn barod i gael ei weini amser cinio. Byddai'r arbedion arlwygo blynyddol amcangyfrifedig pe bai'r ysgol yn cau oddeutu £6,000.

10.15 Mae gan Gyngor Sir y Fflint Strategaeth Lleihau Carbon sy'n ceisio lleihau allyriadau Carbon y Sir o 60% o lefelau 2007/08 erbyn 2021. Mae pedwar maes gweithredu diffiniedig o fewn y strategaeth hon:

- Cadw tŷ da, h.y. lleihau defnydd gwastraffus ac amhriodol o ynni
- Uwchraddio technegol – gosod cyfarpar a mesurau rheoli newydd a mwy ynni effeithlon
- Rhesymoli asedau – cau/gadael adeiladau anaddas neu adeiladau nad oes eu hangen yn segur
- Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy - buddsoddi mewn technolegau cynhyrchu carbon isel

Mae'r holl elfennau uchod yn cyfrannu at y nod pwysig o leihau allyriadau, gan arwain at well amgylchedd a chostau is i'r Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â chostau ynni a threthi carbon amrywiol.

## 11. Beth fydd effaith y cynnig ar dir ac adeiladau'r Ysgol?

11.1 Nid oes gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer safle Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, ac ni fydd yn ystyried dyfodol y safle tan penderfynu ar ddyfodol yr ysgol.



- 11.2 Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (yr adeilad a'r safle) yn cael ei datgan yn ddiangen i Addysg ac yn cael ei throsglwyddo i Dîm Asedau Eiddo Cyngor Sir y Fflint.
- 11.3 Fel y nodwyd eisoes yn y ddogfen hon, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar gyfer safle'r ysgol pe bai'r ysgol yn cau. Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer yr ysgol yn cael ei wneud ar ôl penderfynu ar ddyfodol yr ysgol. Gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo asedau'r ysgol neu ran o asedau'r ysgol i grŵp cymunedol cyfansoddol, pe gallent ddangos angen a gallu i ymgymryd â'r gwaith o gynnal y safle.

## 12. Pa faterion sydd wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r cynnig?

### Opsiynau Amgen

- 12.1 Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ofalus i opsiynau amgen amrywiol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynnig cyfredol. Wrth ystyried yr opsiynau hyn, cyfeiriwyd at brif amcanion buddsoddi'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion sydd fel a ganlyn:
- parhau i godi safonau addysgol;
  - creu'r amodau lle gall arweinwyr ysgolion lwyddo;
  - sicrhau bod adeiladau ysgolion yn amgylcheddau dysgu a gweithio atyniadol;
  - lleihau nifer y lleoedd dros ben a'r amrywiadau anghyfartal mewn costau fesul disgybl;
  - sicrhau gwydnwch yn wyneb gostyngiad mewn cyllid refeniw.
- 12.2 Hefyd, mae'r opsiynau oll wedi'u dadansoddi yn erbyn y sbardunwyr allweddol ar gyfer yr adolygiad, sef:
- Gwelliannau Addysgol
  - Arweinyddiaeth Ysgol Gadarn
  - Adeiladau Addas
  - Lleoedd heb eu llenwi
  - Prinder Adnoddau
- 12.3 Amlinellir yr opsiynau a ystyriwyd gan y Cyngor mewn perthynas ag Ysgol Gymraeg Mornant, Picton isod ochr yn ochr â'r manteision ac anfanteision cysylltiedig ar gyfer pob opsiwn.

<b>Opsiwn 1: Cadw pethau fel ag y maent</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn aros ar agor.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fyddai'r Cyngor yn gallu gwneud cynnydd tuag at y targed cenedlaethol o 10% ar gyfer lleoedd heb eu llenwi ym mhob sector ysgol.</li> <li>• Ni fyddai'n gostwng y gost fesul disgybl ar gyfer yr ysgol, gyda'r ysgol lai yn derbyn cymhorthdal gan y Cyngor er mwyn ei chynnal.</li> <li>• Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at ddsbarthiad mwy cytbwys o gyllid ar sail disgyblion.</li> <li>• Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at well effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o safbwynt ystad yr ysgol.</li> <li>• Byddai'r Cyngor yn dal i orfod cefnogi costau cynnal a chadw'r adeiladau a chostau gwelliannau cyfalaf.</li> </ul>

<b>Opsiwn 2: Ffedereiddio</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn aros ar agor.</li> <li>• Byddai un Pennaeth ar draws dau safle neu fwy, yn darparu cyfle posibl i gryfhau arweinyddiaeth a rheolaeth ac yn arwain at arbed cyflog o leiaf un Pennaeth.</li> <li>• Byddai gwell cyfle i rannu adnoddau nag sy'n digwydd ar hyn o bryd a rhannu mwy o arferion gorau ac arbenigedd staff.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai lleoedd heb eu llenwi yn parhau'n broblem – mae rhagolygon disgyblion yn awgrymu lleoedd heb eu llenwi uwch na'r targed cenedlaethol o 10% ar draws y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn 2017.</li> <li>• Byddai gofyniad o hyd i gyllido a chynnal dau adeilad ysgol neu fwy a chyrrff staffio</li> <li>• Efallai y byddai costau staffio cynyddol oherwydd gofynion staff ychwanegol o ganlyniad i strwythurau arweinyddiaeth a rheolaeth diwygiedig.</li> <li>• Byddai disgyblion yn parhau mewn cohortau oedran cymysg yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton - er y byddai rhai cyfleoedd i gynnal gweithgareddau gyda disgyblion partner/iaid ffederal.</li> <li>• Ni fyddai'n arwain at arbedion refeniw sylweddol i'r Cyngor.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at ddosbarthiad mwy cytbwys o gyllid ar sail disgyblion.</li> <li>• Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at well effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o safbwynt ystad yr ysgol.</li> <li>• Byddai'r Cyngor yn dal i orfod cefnogi costau cynnal a chadw'r adeilad a chostau gwelliannau cyfalaf.</li> </ul>
--	--

<b>Opsiwn 3: Cau</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai disgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn gallu cael mynediad i addysg o safon uwch yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a nodir fel ysgolion amgen.</li> <li>• Byddai lleoedd heb eu llenwi yn yr ardal yn cael eu gostwng yn unol â thargedau cenedlaethol a lleol.</li> <li>• Byddai cyllid fesul disgybl yn cael ei ddosbarthu'n fwy cyfartal ledled yr ardal ac yn cael effaith ehangach drwy ystad yr ysgol.</li> <li>• Gellid defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac effeithiol i gynnal a chryfhau gwelliannau addysgol.</li> <li>• Bydd yr amrediad cost fesul disgybl yn cael ei ostwng yn y sector cynradd</li> <li>• Bydd llai o weithgareddau a chostau cynnal a chadw adeiladau ymatebol, cylchol ac wedi'i gynllunio.</li> <li>• Byddai arbedion refeniw'n cael eu gwneud o ran costau staffio ac arweinyddiaeth.</li> <li>• Ni fyddai'n rhaid i'r Cyngor wario adnoddau cyfalaf i fynd i'r afael â materion addasrwydd a digonolrwydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg ym mhentref Gwesbyr-Picton yn dod i ben.</li> <li>• Byddai staff yn cael eu hadleoli neu eu diswyddo.</li> <li>• Byddai'r amser teithio i ysgolion amgen yn cynyddu.</li> <li>• Effeithiau posibl ar grwpiau o ffrindiau.</li> <li>• Effaith bosibl ar gymuned Gwesbyr a Picton.</li> </ul>

### **13. Effeithiau ar y Gymraeg, y Gymuned a Chydraddoldeb**

- 13.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd unrhyw fwriad i gau ysgol yn cael rhywfaint o effaith ar y gymuned leol. Gellir gweld yr asesiad o'r effaith ar y gymuned drwy glicio'r ddolen isod:

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx>

- 13.2 Mae'r asesiad o'r effaith wedi nodi nifer o feysydd posibl lle gallai'r cynnig gael rhywfaint o effaith negyddol ar nifer fechan o deuluoedd lleol a'r gymuned leol.

- 13.3 Byddai colli'r ysgol yn effeithio ar nifer fechan o weithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal a'r cyfleusterau cymunedol yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton fel:-

- Cyfarfodydd codi arian ar gyfer Eisteddfod Yr Urdd 2016
- Dysgu Teulu

13.4 Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ar gyfer safle'r ysgol pe bai'r ysgol yn cau. Bydd cynllunio ar gyfer yr ysgol ond yn digwydd ar ôl penderfynu ar ddyfodol yr ysgol. Gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo ased yr ysgol neu ran o'r ased i grŵp cymunedol a gyfansoddwyd pan allant ddangos angen a gallu i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am redeg y safle.

- 13.4 Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg wedi'u cwblhau ar gyfer y cynnig hwn hefyd. Cwblhawyd yr asesiadau o effaith i ystyried effaith bosibl y polisi ar holl feysydd cydraddoldeb a'r Gymraeg a ffyrdd posibl o gyfyngu'r effaith a hyrwyddo effaith gadarnhaol.

- 13.5 Mae'r asesiadau o effaith wedi nodi nifer o feysydd posibl lle gallai'r cynnig gael rhywfaint o effaith negyddol ar rai grwpiau nodweddion gwarchoddedig, ac wedi nodi ffyrdd o hyrwyddo effaith gadarnhaol. Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i'w weld drwy glicio ar y ddolen isod:-

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx>

#### **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

- 13.6 Nod yr Asesiad o'r Effaith hwn yw ystyried effaith bosibl y cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ar y Gymraeg.

13.7 Er mwyn asesu'r effaith bosibl ar y Gymraeg, rhoddwyd ystyriwyd y meysydd canlynol:

- Iaith yr ysgol;
- Mynediad i addysg Gymraeg;
- Darpariaeth Addysg/Safonau Addysg;
- Mynediad i ddarpariaeth anstatudol;
- Mynediad i weithgareddau cyn/ar ôl ysgol;
- Defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned

Cymerwyd y data canlynol o gyfrifiad 2011 ac mae'n darparu gwybodaeth

am sgiliau Cymraeg trigolion ardal Ffynngroyw sef lleoliad yr ysgol. Poblogaeth amcangyfrifedig y ward yn 2011 oedd 1,757 ac mae'r canlyniadau ar gyfer sgiliau Cymraeg fel a ganlyn:

- mae 22.9% o'r trigolion (3 oed a hŷn) yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Sir y Fflint o 13.2% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 19.0%.
- mae 16.1% o'r trigolion (3 oed a hŷn) yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Sir y Fflint o 9.3% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 14.6%.

*(Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Infobase Cymru)*

Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton wedi'i diffinio fel ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg Categori 4 gyda'r Gymraeg fel y prif gyfrwng addysgu ac iaith bob dydd yr ysgol.

13.8 Mae data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) o fis Ionawr 2015 yn nodi'r wybodaeth ganlynol am y defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion a theuluoedd Ysgol Gymraeg Mornant, Picton –

Canran y disgyblion:

Sy'n siarad Cymraeg gartref – 6.25%

Nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref – 91.66%

Yn amherthnasol (methu siarad Cymraeg) – 2.08%

13.9 Y ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg agosaf i Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yw Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon, Sir y Fflint (6.69 milltir o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton) ac Ysgol y Llys, Prestatyn, Sir Ddinbych (4.37 milltir o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton).

- 13.10 Mae hanes trosglwyddo disgyblion o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn amrywiol – mae'r rhan fwyaf yn mynd i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg e.e. Ysgol Maes Garmon, Sir y Fflint ac Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy, Sir Ddinbych. Mae nifer fechan o ddisgyblion yn mynd i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.
- 13.11 Mae disgyblion o Ysgol Gwenffrwd, yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg amgen agosaf yn Sir y Fflint, sy'n trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg naill ai'n mynychu Ysgol Maes Garmon neu Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy, Sir Ddinbych. Mae nifer fechan yn mynd i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.
- 13.12 Mae bron holl ddisgyblion Ysgol y Llys, yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg amgen agosaf at Ysgol Gymraeg Mornant, Sir Ddinbych sy'n trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn mynd i Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy, Sir Ddinbych.
- 13.13 Mae'r tabl isod yn cymharu safonau Cymraeg Ysgol Gymraeg Mornant a'i hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg amgen agosaf - Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol y Llys, Prestatyn. Y lefel ddisgwyliedig ar gyfer plant 7 oed yw Canlyniad 5 yn y Cyfnod Sylfaen neu well. Y lefel ddisgwyliedig ar gyfer disgyblion 11 oed yw Lefel 4 yn y Cwricwlwm Cenedlaethol neu well.

<b>Ysgol Gymraeg Mornant</b>	2012	2013	2014
<b>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg (7 oed)</b>	<b>44.4%</b>	<b>50.0%</b>	<b>50.0%</b>
Cyfartaledd Teuluoedd	76.6%	81.4%	87.5%
Cyfartaledd Awdurdod Lleol	84.1%	84.4%	87.3%
Cyfartaledd Cymru	85.9%	86.7%	89.8%
<b>Cymraeg iaith 1af (11 oed)</b>	<b>88.9%</b>	<b>87.5%</b>	<b>87.8%</b>
Cyfartaledd Teuluoedd	77.3%	77.9%	82.5%
Cyfartaledd Awdurdod Lleol	78.9%	90.1%	90.0%
Cyfartaledd Cymru	84.0%	86.7%	88.1%

<b>Ysgol Gwenffrwd</b>	2012	2013	2014
<b>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg (7 oed)</b>	<b>76.9%</b>	<b>78.4%</b>	<b>84.6%</b>
Cyfartaledd Teuluoedd	81.6%	84.7%	91.9%
Cyfartaledd Awdurdod Lleol	78.9%	90.1%	90.0%
Cyfartaledd Cymru	85.9%	86.7%	89.8%
<b>Cymraeg iaith 1af (11 oed)</b>	<b>88.2%</b>	<b>88.2%</b>	<b>95.0%</b>
Cyfartaledd Teuluoedd	86.2%	87.0%	90.0%

Cyfartaledd Awdurdod Lleol	78.9%	90.1%	90.0%
Cyfartaledd Cymru	84.0%	86.7%	88.1%

<b>Ysgol Y Lllys</b>	2012	2013	2014
<b>laith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg (7 oed)</b>	<b>95.1%</b>	<b>94.9%</b>	<b>89.5%</b>
Cyfartaledd Teuluoedd	86.4%	84.1%	90.6%
Cyfartaledd Awdurdod Lleol	88.4%	89.9%	89.3%
Cyfartaledd Cymru	85.9%	86.7%	89.8%
<b>Cymraeg iaith 1af (11 oed)</b>	<b>83.8%</b>	<b>86.2%</b>	<b>86.7%</b>
Cyfartaledd Teuluoedd	86.7%	87.3%	89.4%
Cyfartaledd Awdurdod Lleol	90.0%	88.0%	85.1%
Cyfartaledd Cymru	84.0%	86.7%	88.1%

Ffynhonnell: Mylocalschoolswales.gov.uk

13.14 Yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn y sir, gyda'r nod o greu sir a gwlad cynyddol ddwyieithog.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwmo i gefnogi, ehangu a hyrwyddo addysg Gymraeg yn y gymuned gyfan, gan gynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg yn unol â Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru o ddatblygu dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog (h.y. rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg) a ble mae galw.

Bydd Cyngor Sir y Fflint, gan weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, rhanddeiliaid a darparwyr eraill yn: -

- darparu gwybodaeth a dealltwriaeth lawn i rieni o fanteision addysg Gymraeg a'r cyfleoedd sydd ar gael yn Sir y Fflint;
- gweithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu'n sylweddol nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg yn Gymraeg yn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig y Sir;
- gweithio gydag ysgolion i ddatblygu rhaglen DPP ymysg y gweithlu addysg a fydd yn cynyddu nifer y darpar ymarferwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg;
- gweithio gydag ysgolion i godi safonau, fel sy'n ofynnol gan y Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol a'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion
  - yn y sector cyfrwng Cymraeg (Cymraeg Iaith Gyntaf a phynciau'n cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm)
  - yn y sector cyfrwng Saesneg (y Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i hyrwyddo fel ail iaith).

13.15 Yn unol â'r rheoliadau statudol mewn perthynas â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal arolwg i asesu'r galw

am addysg Gymraeg bob tair blynedd er mwyn cynllunio ar gyfer y lefelau priodol o ddarpariaeth.

- 13.16 Cadarnhaodd arolygon 2009 a 2013 fod y galw mwyaf am addysg Gymraeg yn Sir y Fflint yn ardal Glannau Dyfrdwy ac ardal Bwcle/Mynydd Isa. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymateb i'r galw hwn drwy ehangu darpariaeth Ysgol Croes Atti (Y Fflint) ar safle ychwanegol yn Shotton a agorodd ym mis Medi 2014. Mae nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol newydd hon ar gynydd.
- 13.17 Mae anghenion y sector addysg cyfrwng Cymraeg bob amser yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgeisio am gyllid o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.



## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg – Cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant

### Dyfarniadau Effaith: Cadarnhaol/Negyddol/Niwtral

Defnydd disgyblion o'r Gymraeg	Opsiwn 1 – Cadw pethau fel ag y maent	Opsiwn 2 – Ffedereiddio gydag ysgol cyfrwng Cymraeg arall	Opsiwn 3 – Cau	Sylwadau/Lliniaru effeithiau negyddol yn y dyfodol
Asesu mynediad i Addysg Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 7 oed ac 11 oed.	Niwtral	Niwtral	Niwtral neu Negyddol	Os yw rhieni'n ymrwymedig i sicrhau bod eu plant yn derbyn addysg Gymraeg ac yn eu hanfon i ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal yna bydd effaith y cau'n niwtral. Y perygl yw os bydd Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cau yna efallai na fydd rhieni a disgyblion yn dewis teithio i ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n bellach i ffwrdd ac yn dewis mynd i ysgol cyfrwng Saesneg sydd agosach i'w cartref yn lle hynny. Yna, gallai'r effaith ar nifer y disgyblion sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn negyddol.
Darpariaeth Addysgol a Safonau	Niwtral	Cadarnhaol	Cadarnhaol	Pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau mae'r ddarpariaeth addysgol, safonau a 'Capasiti i Wella' yn uwch yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg agosaf yn Sir y Fflint (Ysgol Gwenffrwd) a Sir Ddinbych (Ysgol y Llys) y gallai rhieni eu dewis pe bai Ysgol

				<p>Gymraeg Mornant, Picton yn cau. Mae hyn yn seiliedig ar ddyfarniadau Estyn a'r model Categori Cenedlaethol.</p> <p><u>Categori Cenedlaethol Estyn</u>  Ysgol Gymraeg Mornant – Estyn yn monitro  Ysgol Gwenffrwd – Dim dilyniant  Ysgol y Llys – Dim dilyniant</p> <p><u>Model Categori Cenedlaethol</u>  <b>Ysgol Gymraeg Mornant :</b>  Safonau Grŵp 4  Capasiti i Wella – B  Categori Cymorth - Oren  <b>Ysgol Gwenffrwd</b>  Safonau Grŵp 3  Capasiti i Wella – A  Categori Cymorth - Melyn  <b>Ysgol y Llys</b>  Safonau Grŵp 3  Capasiti i Wella – B  Categori Cymorth - Melyn  <i>(Ffynhonnell:  <a href="http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym">http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym</a>  a gwefan Estyn  <a href="http://www.estyn.gov.uk">www.estyn.gov.uk</a>)</i></p>
Defnydd iaith disgyblion:				
- Ar yr iard chwarae	Niwtral	Niwtral	Niwtral /Negyddol*	*Dibynnu ar ddewis rhieni o ysgol newydd os yw Ysgol Gymraeg Mornant yn cau - mae parhau gydag addysg Gymraeg yn rhoi
- Yn y Clwb Brechwast	Niwtral	Niwtral	Niwtral /Negyddol*	
- Yn y Clwb ar ôl ysgol	Niwtral	Niwtral	Niwtral /Negyddol	

				effaith niwtral. Mae symud i addysg Saesneg yn rhoi effaith negyddol.
Staff yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Mae holl aelodau staff Ysgol Gymraeg Mornant, Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol y Llys yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
Cyfle i fanteisio ar weithgareddau ar ôl ysgol sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg e.e. clwb yr Urdd/ymweliadau preswyl	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Mae'r tair ysgol yn cynnig amrywiaeth o brofiadau i blant ddatblygu a mwynhau eu defnydd o'r Gymraeg yn cynnwys clybiau ysgol a gweithgareddau'r Urdd a gweithgareddau cymunedol eraill.
Cyfle i rieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu Cymraeg a gynigir gan yr ysgol	Niwtral	Niwtral	Niwtral /Negyddol	Dywedodd Pennaeth Ysgol Gymraeg Mornant, Picton fod yna sesiwn 'Dysgu Teulu' yn cael ei chynnal bob wythnos.  Nid yw Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon yn cyfeirio rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach at weithgareddau i ddysgu Cymraeg.  Mae Ysgol y Llys yn cyfeirio rhieni at ddsbarthiadau Cymraeg addas yn y gymuned.
Darpariaeth cyn-ysgol /blynyddoedd cynnar drwy	Niwtral	Niwtral	Niwtral /Negyddol*	Mae Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ac Ysgol Gwenffrwd yn cynnig darpariaeth

<p>gyfrwng y Gymraeg</p>				<p>cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae Cylch Meithrin Mornant yn cynnig lleoedd addysgol wedi'u hariannu'n rhan-amser i blant tair oed (Hawl Bore Oes), grŵp rhiant a phlentyn (Ti a Fi) a gofal cofleidiol i ddisgyblion Meithrin (Meithrin Mwy).</p> <p>Mae Cylch Meithrin Rhagorol yn cynnig lleoedd addysgol wedi'u hariannu'n rhan-amser i blant tair oed (Hawl Bore Oes), a grŵp Ti a Fi.</p> <p>Mae Cylch Chwarae Treffynnon yn cynnig lleoedd addysgol wedi'u hariannu'n rhan-amser i blant tair oed (Hawl Bore Oes) a grŵp Ti a Fi.</p> <p>*Dibynnu ar ddewis rhieni o ysgol newydd os yw Ysgol Gymraeg Mornant yn cau - mae parhau gydag addysg Gymraeg yn rhoi effaith niwtral. Mae symud i addysg Saesneg yn rhoi effaith negyddol.</p>
<p>laith a ddefnyddir fwyaf gan y Corff Llywodraethu ar gyfer cyfarfodydd a chyfathrebu</p>	<p>Niwtral</p>	<p>Niwtral</p>	<p>Niwtral</p>	<p>Cynhelir cyfarfodydd Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn Saesneg. Cynhelir cyfarfodydd y</p>

				Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn Saesneg.
laith a ddefnyddir fwyaf yng ngweithgareddau/ cyfarfodydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Cynhelir cyfarfodydd Cymdeithas Rieni ac Athrawon Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn Saesneg.

#### **14. Effaith y Cynnig ar Athrawon, Staff Cymorth a'r Corff Llywodraethu**

- 14.1 Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith byddai hyn yn arwain at newid i'r corff staffio. Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith byddai tîm Partner Busnes Adnoddau Dynol y Cyngor yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r corff llywodraethu ac aelodau o'r staff addysgu a staff cymorth ynglŷn â'r broses ddiswyddo a gweithgareddau cysylltiedig.
- 14.2 Bydd undebau llafur priodol y staff addysgu a'r staff cymorth yn rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol. Bydd cynrychiolydd penodol o dîm Adnoddau Dynol Cyngor Sir y Fflint yn cael ei ddyrannu i gynnal cyfarfodydd ymgynghori.
- 14.3 Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith byddai'r Cyngor yn gweithio gydag aelodau staff cyfredol Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, yn cynnwys y staff addysgu a'r staff cymorth, pe baent yn dymuno cael eu hadleoli neu ymddeol.
- 14.4 Bydd corff llywodraethu'r ysgol yn gweithredu ei bolisi newid sefydliadol a diswyddo ei hun pan fo angen a bydd cymorth priodol yn cael ei ddarparu i staff addysgu a staff cymorth yn ystod yr amser hwn gan Dîm Arwain yr Ysgol a'r Cyngor.
- 14.5 Efallai y caiff staff sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig gyfle i gael swydd yn y rhwydwaith ysgolion lleol.
- 14.6 Ni ddisgwylir i staff ysgolion amgen a enwir yn y ddogfen hon newid yn sylweddol yn sgil y cynnig hwn.
- 14.7 Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn dod i ben ar ddiwrnod cau'r ysgol.

## **15. Effaith y Cynigion ar Ddisgyblion**

- 15.1 Wrth gynnig newidiadau i drefniant ysgol cydnabyddir y bydd yna rai newidiadau i ddisgyblion. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu ac Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cau byddai'n arwain at newidiadau i'r disgyblion presennol fel:
- Byddai mwyafrif y disgyblion yn gorfod teithio am amser hirach i ysgol newydd
  - Gwisg ysgol newydd
  - Athrawon newydd
  - Amgylchedd dysgu newydd
  - Gallai effeithio ar grwpiau ffrindiau
- 15.2 Byddai'r Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i hwyluso'r pontio i bob disgybl, yn enwedig grwpiau o ddysgwyr agored i niwed fel y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith byddai'r Cyngor yn trefnu dyddiau pontio i ddisgyblion ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd (yn amodol ar ddymuniad y rhieni).
- 15.3 Pan fydd gan ddisgyblion anghenion ADY penodol bydd yr adnodd a'r cymorth maent eu hangen yn cael eu hailadrodd yn eu hamgylchedd dysgu newydd. Mae'r adran ganlynol yn manylu ar hyn.

## **16. Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Grwpiau o Ddysgwyr Agored i Niwed**

- 16.1 Pe bai'r cynnig cyfredol yn cael ei roi ar waith byddai'n newid amgylchedd dysgu'r holl ddisgyblion. Mae'r Cyngor yn cydnabod, er y bydd yr holl ddisgyblion yn profi'r newid hwn, y gallai fod yn fwy o her i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i darfu cyn lleied â phosibl ar yr holl ddisgyblion gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- 16.2 Mae gofyn i bob ysgol yng Nghymru dalu sylw dyledus i ddogfennau Llywodraeth Cymru, Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002) a Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr rhif 47/2006. Mae'r dogfennau hyn yn categoreiddio grwpiau o ddisgyblion y gellid eu hystyried fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn nodi'r angen i ysgolion gael prosesau ar waith i nodi'r disgyblion hyn ac yn gosod gofyniad ar ysgolion i gyflwyno darpariaeth briodol mewn ymateb i hyn. Byddai angen i unrhyw ysgol amgen a nodwyd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o ganlyniad i'r cynnig hwn ystyried anghenion y disgyblion a chynnig cymorth priodol mewn ymateb i'r rhain.
- 16.3 Pan fo gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol sylweddol a'i fod wedi cael Datganiad o Angen Addysgol Arbennig, bydd yn parhau i gael yr adnoddau ychwanegol a nodwyd yn y Datganiad yn yr ysgol newydd. Efallai y bydd gan rai

disgyblion Gytundeb Lefel Gwasanaeth sy'n darparu ymyrraeth unigol gan wasanaethau canolog, neu adnoddau ariannol i'r ysgol ddarparu cymorth llawn amser. Mewn achos o'r fath, bydd yr adnoddau/darpariaeth yn trosglwyddo i'r ysgol newydd hefyd. Yn achos disgyblion sydd â Chytundeb Lefel Gwasanaeth neu Ddatganiad byddai'r swyddog penodedig yn cynnig cymorth i rieni/gofalwyr a disgyblion yn ystod y cyfnod pontio.

- 16.4 Bydd cynllunio gofalus yn digwydd pan fo anghenion disgyblion yn gofyn am addasiadau i'r amgylchedd ffisegol newydd er mwyn ei wneud yn hygyrch. Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymwybodol o'r dyletswyddau a roddwyd arno gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn gweithio o fewn cyfyngiadau'r Ddeddf i sicrhau adeiladau ysgol ddiogel i'w ddisgyblion. Bydd swyddogion, felly, yn gweithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill i sicrhau trefniadau pontio didrafferth i'r amgylchedd newydd pan fo angen addasiadau. Efallai y bydd cyfleusterau addas yn bodoli eisoes ar gyfer rhai disgyblion a bydd pob disgybl yn cael ei ystyried fesul achos, gan ystyried dymuniadau'r rhieni.
- 16.5 Mae ysgolion wedi cofnodi'r categorïau o anghenion addysgol ar gyfer eu disgyblion llawn amser yn CYBLD Ionawr 2015. Mae'r categorïau anghenion addysgol ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ac ysgolion amgen wedi'u nodi isod.

Mewn rhai achosion mae'r set data'n anghyflawn ac wedi'i nodi yn (\*) gan y gallai hyn arwain at nodi disgyblion unigol yn sgil niferoedd isel yn y cohort dan sylw.

Enw'r Ysgol	Gweithredu gan yr Ysgol	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Â Datganiad
Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	*	*	*
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	57	29	*
Ysgol Y Llys, Prestatyn	27	19	0

- 16.6 Mae darpariaeth ar gyfer ADY yn destun gwiriad allanol gan broses Arolygu Estyn. Cyflwynwyd y sylwadau canlynol am Ysgol Gymraeg Mornant, Picton a phob un o'r ysgolion perthnasol:

Ysgol Gymraeg Mornant, Picton Dyddiad Arolygiad Estyn: Hydref 2014

'Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd da ac i gael mynediad i'r cwricwlwm llawn. Trwy ddefnyddio amrediad da o ddulliau asesu, mae'r ysgol yn llwyddo i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar ac i drefnu cynhaliadaeth a rhaglenni ymyrraeth penodol ar eu cyfer. Mae hyn yn arwain at gynnydd addas mewn safonau a dysgu'r disgyblion. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd priodol ac, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mewn achosion penodol, mae'r ysgol yn manteisio ar gydweithrediad asiantaethau allanol, ynghyd â gwasanaethau cynhaliol yr awdurdod lleol.'

Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon

Dyddiad Arolygiad Estyn: Ionawr 2011

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu. Nid oes patrwm arwyddocaol yn amlygu ym mherfformiad bechgyn a merched. Mae'r ysgol wedi ei staffio yn briodol ac yn gwneud defnydd effeithiol o amser, arbenigedd a phrofiad aelodau staff. Gwneir defnydd da o gymorthyddion dysgu ar draws yr ysgol gan gynnwys yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cynorthwyo disgyblion ag ADY.

'Mae 33.2% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21.6%'

Ysgol Y Llys, Prestatyn

Dyddiad Arolygiad Estyn: Rhagfyr 2012

'Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da iawn. Mae'r ysgol yn cydlynu ei hystod eang o ddarpariaeth yn ardderchog. Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson ac yn effeithiol iawn. Mae staff a'r cydlynnydd yn sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys barn y rhieni. Mae'r modd y mae'r ysgol yn trefnu hyfforddiant i aelodau o'r staff a'r ddarpariaeth sy'n deillio ohono yn rhagorol.'

- 16.7 Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf roedd canran Prydau Ysgol am Ddim Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn 22.91%. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Prydau Ysgol am Ddim, sef 17.1%. Mae'r Cyngor o'r farn na fydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar ddisgyblion o gefndir difreintiedig.

## 17. Trefniadau Cludiant

- 17.1 Mae'r trefniadau cludiant cyfredol ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton fel a ganlyn:

Contract 1 (Gwasanaeth bws)

= £100 y dydd



Contract 2 = £35 y dydd

Contract 3 = £45 y dydd

Costau cludiant cyfredol = £180.00 y dydd

Cyfanswm costau cludiant blyneddol = £180.00 x 190 diwrnod ysgol =  
£34,200.00

17.2 Bydd y Cyngor yn darparu cludiant yn unol â'r Polisi Cludiant.

<http://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf>

Mae nifer fechan o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn byw yn Sir Ddinbych a byddai eu cymhwysedd nhw am gludiant yn cael ei reoli gan Gyngor Sir Ddinbych. Bydd copi o'r ddogfen ymgynghori'n cael ei anfon i Gyngor Sir Ddinbych er gwybodaeth. Mae polisi cludiant Cyngor Sir Ddinbych i'w weld drwy glicio'r ddolen isod:

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/addysg/grantiau-ac-ariannu/cludiant-ysgol-am-ddim.aspx>

17.3 I grynhoi, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i blant o oedran ysgol gorfodol, os yw'r plentyn yn cael addysg gynradd ac yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf.

Mae'r Cyngor hefyd yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol:

- os yw'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y llwybr i'r ysgol yn beryglus
- os yw cludiant i ysgol a enwir yn cael ei nodi yn Natganiad o Anghenion Addysgol arbennig disgybl. Fel arfer byddai hyn ar sail feddygol neu addysgol a byddai'n cael ei ystyried yn hanfodol yng nghyd-destun meini prawf eraill a nodwyd yn y polisi hwn
- os oes angen cludiant ar blentyn ar sail feddygol, ac nid oes cludiant cyhoeddus addas ar gael;

Caiff cludiant am ddim ei ddarparu hefyd ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol:

- os yw'r rhieni'n cael Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith, ac mae'r cartref dros 2.5 milltir o'r ysgol briodol agosaf;
- i'r ysgol cyfrwng Gymraeg agosaf yn ôl y meini prawf a nodir uchod;
- i'r ysgol agosaf a gynorthwyir yn wirfoddol ble mae derbyn i'r ysgol ar sail enwadol, yn amodol ar y meini prawf pellter. Bydd ymgynghori ag ysgolion unigol yn digwydd i gadarnhau'r meini prawf derbyn yn ôl pa rai y derbynnir

disgyblion. Mae'n bosibl y gofynnir am dystiolaeth addas o ymlyniad at ffydd yr ysgol megis tystysgrif bedyddio neu lythyr gan offeiriad.

- 17.4 Byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn gorfod teithio ymhellach o'u cartref i ysgolion amgen ac ni allent ddefnyddio llwybrau cerdded yn y pentref gan ei fod yn lleoliad gwledig.
- 17.5 Byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gorfod teithio ymhellach, ond ni fyddai hyn yn mynd y tu hwnt i ganllawiau teithio dysgwyr.
- 17.6 Gellir gweld mapiau a gwybodaeth cludiant manwl ar gyfer disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ac ysgolion amgen yn yr asesiad o'r effaith ar drafnidiaeth drwy glicio ar y ddolen isod:-

[www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation](http://www.flintshire.gov.uk/schoolmodernisation)

## **18. Trefniadau Derbyn**

- 18.1 Pe bai'r cynnig cyfredol yn cael ei roi ar waith bydd trefniadau ar gyfer ysgolion amgen yn cael eu trafod yn unol â Pholisi Derbyniadau Disgyblion Ysgolion Cyngor Sir y Fflint. Mae'r polisi i'w weld ar y wefan drwy glicio ar y ddolen isod:-

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx>

Cyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon a Chyngor Sir Ddinbych yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol y Llys, Prestatyn. Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith byddai gofyn i rieni/gofalwyr ymgeisio am le mewn ysgol amgen.

- 18.2 Bydd tîm derbyniadau Cyngor Sir y Fflint yn trafod gyda rhieni pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith er mwyn sicrhau trefniadau pontio sefydlog i ddisgyblion sy'n symud i ysgol amgen. Byddai gwasanaeth derbyniadau Cyngor Sir y Fflint yn ysgrifennu at rieni unigol i amlinellu'r opsiynau sydd ar gael iddynt ac yn cynorthwyo rhieni/gofalwyr i nodi darpariaeth amgen addas gan ystyried anghenion disgyblion unigol.
- 18.3 Gall rhieni/gofalwyr gwblhau ffurflen ar-lein ar gyfer derbyniadau i unrhyw ysgol drwy glicio'r ddolen isod:-

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx>

Gall rhieni/gofalwyr gwblhau ffurflen ar-lein ar gyfer derbyniadau i ysgolion yn Sir Ddinbych gan adran dderbyniadau ysgolion Sir Ddinbych drwy glicio'r ddolen isod:-

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/addysg/derbyn-i-ysgol.aspx>

## 19. Effaith y Cynnig ar Ddarpariaeth Uwchradd

- 19.1 Ni fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth uwchradd yn yr ardal. Mae disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn trosglwyddo i Ysgol Maes Garmon, yr Wyddgrug neu Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy, Sir Ddinbych. Os yw disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn dewis eu Hysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg agosaf ni fyddai hyn yn cael effaith negyddol ar Ysgol Maes Garmon, yr Wyddgrug nac Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy, Sir Ddinbych.

## 20. Sut fydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal?

- 20.1 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn rhwng dydd Mercher 11 Tachwedd 2015 a dydd Mercher 23 Rhagfyr 2015. Mae'n rhaid cynnal yr ymgynghoriad am 42 diwrnod gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddyddiau ysgol.

- 20.2 Fel rhan o'r ymgynghoriad mae Cyngor Sir y Fflint wedi paratoi'r ddogfen ymgynghori hon sy'n cynnwys gwybodaeth benodol a nodwyd yng Nghanelawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen ymgynghori'n dilyn y canllawiau hynny ac yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen ar bobl i gymryd rhan yn llawn yn y broses ymgynghori. Mae copiâu caled ar gael ar gais drwy gysylltu â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704134 neu 01352 704015 neu drwy e-bostio [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk).

- 20.3 Anfonwyd y ddogfen ymgynghori ffurfiol hon at ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys:

- Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Mornant, Picton
- Disgyblion, Rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid, staff cymorth ac athrawon Ysgol Gymraeg Mornant, Picton
- Cyrff Llywodraethu eraill, Penaethiaid, rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid a Chynghorau Ysgol ysgolion cynradd cyfagos
- Cylch Meithrin Mornant (darpar rieni)
- Aelodau Seneddol
- Aelodau Cynulliad
- Estyn
- Undebau addysgu a staff
- Gwasanaeth Effeithiolrwydd Ysgolion (GwE)
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Cymuned Llanasa
- Cyngor Tref Prestatyn
- Ysgol Maes Garmon, yr Wyddgrug
- Ysgol Glan Clwyd
- Aelodau Cynulliad Sir y Fflint ac Aelodau Cynulliad rhanbarthol yr ardal
- Swyddog Cludiant Sir y Fflint a Swyddogion Cludiant Awdurdodau Lleol cyfagos
- Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Urdd
- Awdurdodau Esgobol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
- Cyngor Cymuned Gwesbyr-Picton
- Cyngor Cymuned Ffynnongroyw
- Cyngor Tref Treffynnon
- Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint a Phartneriaethau Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cyngorwyr Cyngor Sir y Fflint sy'n cynrychioli Gwesbyr-Picton a'r ardal gyfagos
- AS Cyngor Sir Ddinbych

20.4 Mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint a gallwch ei gweld drwy glicio'r ddolen isod:

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx>

20.5 Paratowyd fersiwn atodol o'r ddogfen ymgynghori hon ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n debyg o gael eu heffeithio gan y cynnig. Bydd y ddogfen yn cael ei darparu yn yr ysgolion a enwyd yn y cynnig. Mae'r ddogfen i'w gweld hefyd ar wefan Cyngor Sir y Fflint drwy glicio'r ddolen uchod. Mae'r ddogfen i blant a phobl ifanc wedi'i hysgrifennu'n arbennig fel y gall plant a phobl ifanc ddeall a chymryd rhan yn y broses ymgynghori. Mae copïau caled ar gael ar gais drwy gysylltu â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar 01352 704134 neu 01352 704015 neu e-bostio [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk).

20.6 Mae dogfennau ategol perthnasol eraill, fel yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned a Chydraddoldeb i'w cael ar wefan Cyngor Sir y Fflint hefyd drwy glicio'r ddolen a ddarparwyd.

20.7 Mae'n rhaid cyhoeddi adroddiad o fewn 13 wythnos i ddyddiad cau ymgynghoriad. Mae'n rhaid i adroddiad yr ymgynghoriad ffurfiol gynnwys y canlynol:

- Crynodeb o'r holl faterion a godwyd gan ymgynghoreion;
- Ymateb i'r holl faterion a godwyd gan ymgynghoreion drwy roi eglurhad a rhesymau ategol;
- Safbwynt Estyn yn llawn (fel y'i darparwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad) ar rinweddau'r cynnig;
- Mae'n rhaid i unrhyw gynigydd sicrhau bod unrhyw safbwyntiau a fynegir gan blant a phobl ifanc a fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yn cael eu cynnwys yn adroddiad yr ymgynghoriad a'i fod ar gael iddynt.

20.8 Nid yw ymatebion sy'n cael eu darparu yn y cyfnod ymgynghori'n cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau ffurfiol.

- 20.9 Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ffurfiol yr ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig. Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig dylid ei gyhoeddi ar ffurf Hysbysiad Statudol.
- 20.10 Mae'r cyfnod gwrthwynebu statudol yn para am 28 diwrnod (ac mae'n rhaid i 15 diwrnod o'r rhain fod yn ddyddiau ysgol). Er mwyn cael ei ystyried fel gwrthwynebiad statudol mae'n rhaid cyflwyno gwrthwynebiad yn ysgrifenedig neu drwy e-bost a'i anfon at y cynigydd (Cyngor Sir y Fflint).
- 20.11 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol mae'n rhaid cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau. Mae'n rhaid cyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu cyn diwedd y 7 diwrnod sy'n dechrau gyda diwrnod penderfyniad y cynnig.
- 21.12 Nodwch na fydd ymatebion a gyflwynir fel rhan o'r cyfnod ymgynghori ffurfiol yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond os yw Hysbysiad Statudol wedi'i gyhoeddi y gellir gwneud gwrthwynebiad statudol. Os oes Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gellir cofrestru gwrthwynebiadau. Gall ymgynghoreion gyflwyno cais yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol i'w hymateb a gyflwynwyd yn y cyfnod ymgynghori gael ei drin fel gwrthwynebiad.
- 20.13 Mae gan Gyngor Sir y Fflint 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu i benderfynu a ddylid rhoi'r cynnig ar waith ai peidio. Gelwir hyn yn 'penderfynu ar y cynnig'.
- 20.14 Bydd Cyngor Sir y Fflint yn gwneud ac yn cyhoeddi ei benderfyniad ar y cynnig yn ysgrifenedig gan bennu'r rhesymau dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint.
- 20.15 O dan adran 54 o Ddeddf 2013 gall y cyrff canlynol atgyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru ei ystyried o fewn 28 diwrnod:
- Awdurdod lleol arall sy'n cael ei effeithio gan y cynnig;
  - Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol sy'n cael ei heffeithio;
  - Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sylfaen sy'n destun y cynigion;
  - Eiddo ymddiriedolaeth ar ran ysgol wirfoddol neu sylfaen sy'n destun y cynigion;
  - Sefydliad addysg bellach sy'n cael ei effeithio gan y cynigion
- 20.16 Bydd angen i'r cyrff sy'n atgyfeirio nodi pam eu bod yn credu bod penderfyniad yr awdurdod lleol yn anghywir.
- 20.17 Gallwch gyflwyno eich barn neu holi unrhyw gwestiynau am y cynnig i ni mewn nifer o ffyrdd. Dyma'r manylion ar gyfer cyflwyno ymatebion mewn nifer o ffyrdd:

## Drwy'r Post

Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND

### Ar e-bost

[21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)

### Ar-lein

<https://www.surveymonkey.com/r/WGD29PJ>

20.18 Mae copi caled o'r ffurflen ymateb wedi'i gynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon hefyd. Gallwch ei dychwelyd drwy'r post neu ar e-bost i'r cyfeiriadau uchod. Gallwch gwblhau'r ymateb yn electronig hefyd gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<https://www.surveymonkey.com/r/WGD29PJ>

20.19 Bydd digwyddiad ymgynghori'n cael ei gynnig i blant a phobl ifanc gydag aelodau Cyngor Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Bydd hwn yn cael ei hwyluso gan swyddog o Gyngor Sir y Fflint y mae ei ddyletswyddau'n cynnwys gwaith ymgysylltu ac ymgynghori sydd wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc. Gall plant a phobl ifanc ymateb i'r ymgynghoriad hefyd drwy ddefnyddio fersiwn plant a phobl ifanc y ddogfen ymgynghori. Bydd plant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio yn cael cyfle i fynegi eu barn ar y cynnig.

20.20 Bydd rhieni/gofalwyr Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cael cynnig digwyddiad ymgynghori. Bydd hwn yn cael ei hwyluso gan swyddogion o Gyngor Sir y Fflint. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael cyfle i drafod y cynnig gyda swyddogion.

20.21 Bydd athrawon/staff cymorth a chorff llywodraethu Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cael cynnig digwyddiad ymgynghori. Bydd hwn yn cael ei hwyluso gan swyddogion o Gyngor Sir y Fflint. Bydd athrawon/staff cymorth a chorff llywodraethu Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn cael cyfle i drafod y cynnig gyda swyddogion.

20.22 Ar ddiwedd y broses ymgynghori ffurfiol bydd yr holl sylwadau'n cael eu casglu a'u crynhoi mewn adroddiad ffurfiol gydag ymatebion ac esboniad o faterion gan yr awdurdod lleol. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ei ystyried.

20.23 Bydd yr holl sylwadau'n cael eu cyflwyno i'r cyfeiriadau uchod erbyn dydd Mercher 23 Rhagfyr. Efallai na fydd ymatebion/safbwyntiau/sylwadau ar y cynnig a anfonwyd at drydydd parti yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad er bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnwys y sylwadau hyn. Efallai na fydd unrhyw

sylwadau a gyflwynir yn hwyr yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad a gyflwynir fel rhan o adroddiad ffurfiol yr ymgynghoriad.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

(Nodwch na fydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried fel gwrthwynebiad ffurfiol)

Bydd yr ymgynghoriad ar Ysgol Gymraeg Mornant, Picton yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2013) yn dechrau ddydd Mercher 11 Tachwedd 2015 ac yn dod i ben ddydd Mercher 23 Rhagfyr 2015.

**Y cynnig yw cau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg) ar 31 Awst 2016 gyda'r disgyblion i drosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg amgen yn yr ardal yn unol â dewis y rhieni**

**Cyn i chi ddechrau – os hoffech chi lenwi'r ffurflen hon ar-lein ewch i:**

<https://www.surveymonkey.com/r/WGD29PJ>

Yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd i chi yn y llyfryn hwn, yn y digwyddiad ymgynghori ac mewn dogfennau eraill sydd ar wefan Cyngor Sir y Fflint, rhowch eich barn ar yr opsiwn mae'r Cyngor yn ei ffafrio ar gyfer ardal Gwesbyr/Picton.

**1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton (erbyn 31 Awst 2016)?**

Ydw  Nac ydw

**2. Ydych chi'n ymateb fel:**

- Disgybl yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton  
 Rhiant/gofalwr disgybl o Ysgol Gymraeg Mornant, Picton  
 Llywodraethwr Ysgol Gymraeg Mornant, Picton  
 Athro yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton  
 Aelod o Staff Cymorth Ysgol Gymraeg Mornant, Picton  
 Rhywun sy'n byw yn yr ardal  
 Arall (nodwch)

**3. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill am sut i gynnal addysg yn ardal Gwesbyr/Picton?**



4. Rhowch unrhyw sylwadau neu safbwyntiau ychwanegol am y cynnig hwn. Dywedwch pam eich bod chi'n teimlo fel hyn.

5. Ydych chi am i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb?

Ydw  Nac ydw

6. A hoffech chi dderbyn dolen e-bost i adroddiad ffurfiol yr ymgynghoriad pan fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint?

Hoffwn  Na hoffwn

7. Os ydych chi wedi ateb yn gadarnhaol i un o'r cwestiynau uchod nodwch eich cyfeiriad e-bost isod. Os nad ydych yn rhoi cyfeiriad e-bost ni allwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

8. Sut rydym ni'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol

***O dan delerau Deddf Diogelu Data 1988 mae'n rhaid i ni eich hysbysu am y canlynol:***

***Mae Cyngor Sir y Fflint yn gofyn am eich barn i'n helpu i lywio'r penderfyniad ar y cynnig cyfredol. Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei defnyddio at y diben hwn yn unig, a'i rhannu o bosibl gydag asiantaethau mewnol eraill sy'n rhan o'r Ymgynghoriad, ond dim ond er mwyn cyflwyno eich sylwadau i lunwyr penderfyniadau a mynd i'r afael ag unrhyw faterion rydych chi'n eu codi. Os nad ydych am roi eich manylion***

***personol bydd eich barn yn dal i gael ei hystyried, ond ni fyddwn yn gallu cydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb yn bersonol.***

***Cyngor Sir y Fflint yw rheolwr y data at ddiben Deddf Diogelu Data 1998. Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu'n unol â'r Ddeddf honno ac yn cael ei chasglu at y diben a nodwyd uchod yn unig, ac ni fydd yn cael ei rhannu gydag unrhyw barti arall.***

Er mwyn monitro cynwysoldeb ein ymgysylltu, byddem yn ddiolchgar am eich cydweithrediad i ddarparu, yn gwbl wirfoddol, yr wybodaeth y gofynnir amdani isod. Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddiennw, a chaiff ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Mae'n cael ei datgysylltu o unrhyw ohebiaeth a geir gennych a chaiff ei dinistrio'n ddiogel ar ôl i ni nodi'r wybodaeth.

**Oedran:** Nodwch eich dyddiad geni (DD/MM/BBBB):   /   /

Gwell gennyf beidio â dweud

**Rhyw:** Gwryw  Arall

Benyw  Gwell gennyf beidio â dweud

**Hunaniaeth Genedlaethol:** Sut fydddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

Cymro / Cymraes  Prydeiniwr / Prydeinwraig

Sais / Saesnes  Gwyddel / Gwyddeles

Albanwr / Albanes  Arall (disgrifiwch) \_\_\_\_\_

Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon  Gwell gennyf beidio â dweud

**Grŵp Ethnig:** Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau.

<b>Gwyn</b>		<b>Du / Du Prydeinig</b>		<b>Asiaidd / Asiaidd Prydeinig</b>	
Prydeinig	<input type="checkbox"/>	Carib'iaidd	<input type="checkbox"/>	Indiaidd	<input type="checkbox"/>
Seisnig	<input type="checkbox"/>	Affricanaidd	<input type="checkbox"/>	Bangladeshaidd	<input type="checkbox"/>
Gwyddelig Gogledd Iwerddon	<input type="checkbox"/>		<input type="checkbox"/>	Pacistanaidd	<input type="checkbox"/>

Albanaidd	<input type="checkbox"/>	Unrhyw gefndir Du arall	Tsieineaidd	<input type="checkbox"/>	
Cymreig	<input type="checkbox"/>		Asiaidd arall	<input type="checkbox"/>	
Gwyddelig	<input type="checkbox"/>				
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	<input type="checkbox"/>				
Arall	<input type="checkbox"/>		<b>Arall / Prydeinig Arall</b>		
<b>Cymysg / Prydeinig Cymysg</b>			Arabaid	<input type="checkbox"/>	
Gwyn / Du Caribiaidd	<input type="checkbox"/>	Gwyn / Asiaidd	<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>
Gwyn / Du Affricanaidd	<input type="checkbox"/>	Unrhyw gefndir Cymysg arall	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch os oes angen)	<input type="checkbox"/>

**Cyfeiriadedd Rhywiol:** Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?

Heterorywiol / Strêt	<input type="checkbox"/>	Deurywiol	<input type="checkbox"/>
Dyn Hoyw	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch os dymunwch)	<input type="checkbox"/>
Merch Hoyw / Lesbiad	<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>

Noder: Dylid gofyn y cwestiwn hwn i bobl dros 16 oed yn unig.

**Crefydd neu Gred:** Beth yw eich crefydd?

Cristion (pob enwad)	<input type="checkbox"/>	Dim crefydd	<input type="checkbox"/>
Bwdhydd	<input type="checkbox"/>	Mwslim	<input type="checkbox"/>
		Iddew	<input type="checkbox"/>
Hindŵ	<input type="checkbox"/>	Sikh	<input type="checkbox"/>
		Anffyddiwr	<input type="checkbox"/>
		Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>

**Statws****Priodasol:**

	Ydw	<input type="checkbox"/>
Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw?	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>

**Anabledd:**

Mae Adran 6(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod anabledd gan unigolyn os:  
 (a) Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a  
 (b) Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Ydw	<input type="checkbox"/>
	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>

**Iaith:**

Beth yw eich dewis iaith?

	Saesneg	<input type="checkbox"/>
	Cymraeg	<input type="checkbox"/>
	Arall (yn cynnwys iaith Arwyddion Prydain)_____	<input type="checkbox"/>
	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>

**Cyfrifoldebau****Gofalu:**

Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd:

• Cyflwr iechyd / anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu	Ydw	<input type="checkbox"/>
• Problemau yn ymwneud â henaint	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>